



Banc

BANC DATBLYGU CYMRU
DEVELOPMENT BANK OF WALES

Adroddiad blynnyddol a datganiadau ariannol

20/21

SWYDDOGION A CHYNGHORWYR PROFFESIYNOL

Cyfarwyddwyr

Gareth Bullock

Cadeirydd

Giles Thorley

Prif Weithredwr

Huw Morgan

Uwch Gyfarwyddwr

Annibynnol An-weithredol

Iraj Amiri

Cyfarwyddwr An-weithredol

Carol Bell

Cyfarwyddwr An-weithredol

Roger Jeynes

Cyfarwyddwr An-weithredol

Margaret Llewellyn OBE

Cyfarwyddwr An-weithredol

Rhys Jones

Cyfarwyddwr An-weithredol

David Staziker

Prif Swyddog Ariannol

Judi Oates

Ysgrifennydd y Cwmni

Kate Methuen-Ley

Cyfarwyddwr An-weithredol

(penodwyd 6 Ebrill 2021)

Robert Lamb

Cyfarwyddwr An-weithredol

(penodwyd 6 Ebrill 2021)

Swyddfa Gofrestredig

Uned J
Pentref Busnes Yale
Ellice Way
Wrecsam
LL13 7YL

Bancwyr

Barclays Bank Plc
Blwch Postio 69
Queen Street
Caerdydd
CF10 5BT

Archwiliwyr

Deloitte LLP
5 Sgwâr Callaghan
Caerdydd
CF10 5BT

CYNNWYS

1. Adroddiad strategol

04-83

Cyflwyniad

Datganiad y Cadeirydd
Adroddiad y Prif Weithredwr
Uchafbwyntiau perfformiad
Model busnes
Cronfeydd
Adroddiad y Cyfarwyddwr Buddsoddi

Buddsodiadau a gwasanaethau eraill

Dechrau busnes
Tyfu busnes
Benthyciadau micro llwybr cyflym
Datblygu menter dechnoleg
Prynu busnes
Ariannu datblygiad eiddo
Angylion Buddsoddi Cymru
Dirnad Economi Cymru
Cymorth i Brynu – Cymru
Hunanadeiladu Cymru
FW Capital

Rhanddeiliaid ac effaith

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru
Datganiad A172 gan y cyfarwyddwyr
Effaith buddsoddi

Rheolaeth ariannol a risg

Adroddiad y Prif Swyddog Ariannol
Rheoli risg a rheolaeth fewnol
Fframwaith rheoli risg
Diywlliant risg
Goddefgarwch risg
Prif risgau
Llinellau model amddiffyn

2. Llywodraethu

84-105

Adran llywodraethu
Adroddiad cyfarwyddwyr
Bywgraffiadau cyfarwyddwyr
Datganiad Llywodraethu Corfforaethol
Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg
Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
Adroddiad y Pwyllgor Enwebu
Pwyllgorau eraill

3. Datganiadau ariannol

106-175

Cyfrifon blynnyddol

ADRODDIAD STRATEGOL

Er mwyn i Gymru ffynnu, credwn fod angen i'n busnesau ffynnu. Pan fydd ein busnesau'n ffynnu, maen nhw'n creu nifer uwch o swyddi o ansawdd gwell. Mae'r bobl maen nhw'n eu cyflogi yn cryfhau ein cymunedau. Pan mae busnesau Cymru yn gryf, mae Cymru yn gryf. Ein pwrrpas yw ei gwneud hi'n haws i fusnesau gael y cyllid sydd ei angen arnynt i ddechrau, cryfhau a thyfu.

DATGANIAD Y CADEIRYDD

Blwyddyn eithriadol gyda heriau annisgwyl.

**Cenhadeth**

Datgloi potensial economi Cymru trwy gynyddu'r ddarpariaeth o gyllid cynaliadwy, effeithiol yn y farchnad.

**Gweledigaeth**

I fod yn adnodd unigryw i Gymru, gan greu gwerth tymor hir a gwella economi ddeinamig, gystadleul Cymru.

**Gwerthoedd**

Agored | Cyfrifol | Partneriaeth

**Nodau**

Dod yn sefydliad conglfaen ar gyfer cyflwyno offerynnau ariannol y sector cyhoeddus, gan gefnogi busnesau micro i ganolig yng Nghymru a chynyddu'r cyflenwad o gyllid.

Cyflawni amcanion polisi allweddol trwy gyflawni targedau perfformiad a darparu gwasanaethau rheoli buddsoddiadau a chymorth ar draws Llywodraeth Cymru gyfan.

Hyrwyddo datblygiad economaidd trwy fodol cyflenwi addasadwy sy'n ymatebol i anghenion y farchnad wrth ddarparu gwerth am arian cyhoeddus.

**Gareth Bullock**

Cadeirydd

"Rwy'n falch bod y gweithlu cyfan wedi ymateb i'r heriau digynsail a berir gan y pandemig."

Trwy gydol fy ngyrfa, rwyf wedi dysgu dro ar ôl tro bod llwyddiant bob amser yn dibynnun ar bobl ac eleni fe atgyfnerthwyd yr hyn a ddysgwyd fwy fwy. Ni allaf fynegi'n ddigonol y diolchgarwch o'r edmygedd sydd gan y Bwrdd am y ffordd y mae'r uwch dîm rheoli, o dan arweiniad ein prif weithredwr, Giles Thorley, a'r gweithlu cyfan, wedi ymateb i'r heriau digynsail a berir gan y pandemig. O fis Mawrth 2020 mae ein tîm wedi gweithio gartref a, hyd yn oed nawr wrth i'r rheolau gael eu llacio'n sylweddol, mae'r mwyaf yn parhau i wneud hynny. Nid yn unig y mae pawb wedi addasu eu patrymau d'u harferion gwaith i ddiwallu anghenion newidiol y busnes, maent i gyd wedi gwneud hynny gydag ysbyrd o gydweithredu a phartneriaeth sy'n adlewyrchu gwerthoedd y Banc Datblygu. Wrth gwrs, rhaid inni gofio bod amgylchiadau personol unigol wedi golygu nad oedd gweithio gartref yn brofiad hawdd neu ddidrafferth i bawb. Aeth y rheolwyr wirioneddol i drafferth i dddod o hyd i ffyrdd arloesol o ymgysylltu â chydweithwyr i wella cymhelliant a lles.

Cyn belled ag y mae ein gweithgareddau 'busnes fel arfer' yn y cwestiwn, roedd yn braf, o bosibl hyd yn oed yn syndod yn yr amser hwn o argyfwng, i fod yn dyst i alw iach iawn ochr yn ochr â'r hyn a ddeilliodd o gylluniau cymorth benthyciadau busnes llywodraethau Cymru a'r DU. O'i gymharu â'r llynedd gwnaethom gynyddu ein benthyciadau o'n buddsoddiadau ecwiti i fentrau Cymru ychydig (£105.6 miliwn v £103.3 miliwn) a gwelwyd nifer llai o ddigwyddiadau ariannu (402 o'i gymharu â 457). Trwy hynny, gwnaethom greu neu ddiogelu 3,291 o swyddi (o'i gymharu â 4,022). Mae mentergarwyr o Gymru sydd â'r dewrder a'r rhagwelediad i fachu cyfleoedd twf yng nghanol sioc economaidd systemig yn dangos bod mentergarwch yng Nghymru yn fyw ac yn iach.

Rydym hefyd yn defnyddio 'trosoledd y sector breifat', sef y benthycau ychwanegol gan fanciau sector preifat a ddenir i mewn i fargeinion yr ydym yn eu hariannu, i fesur ein heffaith ar economi Cymru.

Ar £59.9 miliwn (o'i gymharu â £75.9 miliwn), roedd y ffigur hwn yn is na g mewn blynnyddoedd blaenorol, yn fwyaf tebygol oherwydd ffocws dealladwy'r banciau ar ragleni cymorth benthyciadau'r llywodraeth. Wedi dweud hynny, rydym wedi sylwi ar duedd ymmsg banciau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o ddirywiad yn eu cefnogaeth i rai sectorau, megis adeiladu tai, a'u hoffter o isafswm meintiau bargen uwch. Mae hwn yn fwch rydyn ni'n ei lenwi fwyfwy.

Yn gyffredinol, felly, ym mlwyddyn ariannol 20/21 chwistrellodd y Banc Datblygu dros £197.6 miliwn i mewn economi Cymru gan greu neu ddiogelu dros 19,300 o swyddi. Wrth edrych yn ôl dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi gallu trwy gymsgedol o'n cyllid ein hunain a throsoledd o'r sector breifat i chwistrellu'r swm enfawr o £823 miliwn i mewn i fentrau micro-i-ganolog Cymru sy'n ffurfio anadl einioes ein heonomi.

Cafodd ein his-gwmni yn Lloegr, FW Capital, hefyd flwyddyn hynod Iwyddiannus. Bu'n gyfnod prysur iawn pan gymhwysodd fel benthyciwr o dan y Gynllun Benthyciad Ymyrryd ar Fusnes Coronafeirws llywodraeth y DU, ac ar draws yr holl gronfeydd fe fenthycodd £43.4m i fusnesau yng Ngogledd Lloegr.

Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar am ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i adeiladu'r Banc Datblygu yn sefydliad economaidd parhaus yng Nghymru. Ers ein sefydlu yn mis Hydref 2017 mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r amcan strategol o greu banc datblygu ar raddfa i Gymru trwy ddarparu bron i £1 biliwn o gyfalaf buddsoddadwy.

Yr ymrwymiad mwyaf arwyddocaol o bell ffordd y llynedd oedd y £270 miliwn a chwistrellwyd i Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru er mwyn dod â hi i fyny i gyfanswm o £500 miliwn.

Mae'r Bwrdd wedi gwneud rhai newidiadau pwysig wrth i ni geisio paru profiad ag anghenion sylfaen cwsmeriaid craidd y Banc Datblygu. Gwnaethom gynyddu maint y Bwrdd trwy gyfrwng tri phenodiad anweithredol newydd.

Ym mis Mawrth 2020 gwnaethom benodi Rhys Jones ac ym mis Ebrill 2021 ychwanegwyd Kate Methuen-Ley a Rob Lamb. Mae'r tri yn cynrychioli carfan iau, sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru ac yn rhedeg eu busnesau eu hunain. Maent wedi profi yr un math o heriau ag unrhyw fusnes bach - cael y syniad, llunio cynnig cwsmer, codi cyllid a gyrru twf. Bydd eu cyngor yn berthnasol iawn i sicrhau, wrth i'r Banc Datblygu gynyddu, nad yw'n colli golwg ar anghenion ei gwsmeriaid.

Cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021 oedd yr olaf i Margaret Llewellyn a orffenodd ei thrydydd tymor a'i holaf fel cyfarwyddwr anweithredol. A hithau'n adnabyddus ac uchel ei pharch ar draws Cymru, darparodd profiad dwfn Margaret o fusnes gyngor gwerthfawr a mewnwelediad i'r heriau a'r cyfleoedd a wynebir gan y Banc Datblygu. Mae'r Bwrdd a'r rheolwyr yn mynegi eu diolch cynhesaf a'u gwerthfawrogiad am ei hangerdd a'i hymrwymiad i'w rôl.

Rhaid imi orffen fel y dechreuais trwy fynegi fy niolch unwaith eto i'n holl gydweithwyr a aeth i'r afael â heriau eithriadol y flwyddyn diwethaf hon. Fe wnaethant sicrhau ein bod yn gallu chwarae rhan ystyrlon wrth helpu llawer o gwmniau Cymru i oroesi'r ansicrwydd economaidd ac eraill i fachu ar gyfleoedd newydd. Bellach rydym yn edrych ymlaen at ddefnyddio'r adnoddau ariannol sylweddol a ymddiriedwyd inni i gefnogi'r broses hanfodol o gyflawni adferiad economaidd.

Gareth Bullock
Cadeirydd
22 Medi 2021

ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

Ein performiad.



Giles Thorley
Prif Weithredwr

"Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ar gyfer ein cwsmeriaid a chwarae ein rhan i gefnogi adferiad yn economi Cymru."

Mewn blwyddyn a gafodd ei dominyddu gan heriau deublyg Covid-19 a Brexit, nid yw ein rôl o gefnogi economi Cymru erioed wedi teimlo'n bwysicach nac yn fwy gweladwy. Cyrhaeddodd cyfanswm ein buddsoddiad am y flwyddyn £197.6m ar draws busnes fel arfer (BfA) a Chynllun Benthyriad Busnes Covid-19 Cymru (CBBCC).

Ar 31 Mawrth 2020, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru Gynllun Benthyriad Busnes Covid-19 Cymru o £100m fel ymateb cyflym yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, i gefnogi busnesau presennol yr effeithiwyd arnynt yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Cawsom ein cais cyntaf o fewn yr awr, anfonwyd y cronfeydd cyntaf bedwar diwrnod yn ddiweddarach ac mewn cyfnod o alw digynsail, caewyd y ceisiadau mewn llai nag wythnos. Yn y pen draw, elwodd dros 1300 o fusnesau o dros £92m o gyllid gan ddiogelu dros 16,055 o swyddi.

Yn ystod y flwyddyn ariannol bu cynnydd bach o £2 filiwn mewn cyllid busnes fel arfer ar draws 402 o fuddsoddiadau o'i gymharu â 457 o fuddsoddiadau yn 19/20. Roedd 237 o'r rhain yn fenthyciadau micro, a oedd yn 59% o gyfeintiau buddsoddi'r Banc Datblygu, (19/20 265 o micro fenthyciadau. Gostyngodd y swm a drosolwyd o'r sector breifat i £59.9 miliwn o £75.9 miliwn yn y flwyddyn flaenorol, gyda'r cynnydd mewn benthyciadau datblygu eiddo, sy'n denu lefel is o fuddsoddiad yn y sector preifat yn ffactor cyfrannol.

Gostyngodd maint y fargen ar gyfartaledd ar gyfer micro benthyciadau, gan symud o £23,500 i £22,000.

Parhaodd datblygu eiddo i fod yn faes twf cryf ar gyfer y Banc Datblygu. Cwblhaodd y tîm eiddo gwerth £48.8 miliwn o fenthyciadau ar draws 36 o fuddsoddiadau datblygu eiddo, o gymharu â £34.1 miliwn ar draws 30 buddsoddiadau yn 19/20. Roedd hyn yn gynnnydd o 43% ac yn cefnogi 402 o gartrefi newydd a 70,892 troedfedd sgwâr o ofod masnachol.

Cafodd buddsoddiad ecwiti chwarter cyntaf cryf gyda'r tîm mentrau technoleg yn cwblhau 10 bargen mewn 10 wythnos.

Teimlwyd effaith Covid-19 yn ddiweddarach yn y flwyddyn gyda gostyngiad mewn ymholaiddau cyllido newydd a'r oedi naturiol mewn cyllid wedi'i dynnu gan arwain at ostyngiad cyffredinol mewn buddsoddiad ecwiti o £16.0 miliwn yn 19/20 i £13.8 miliwn yn 20/21.

Parhaodd Dirnad Economi Cymru, ein cydweithrediaid ymchwil gydag Ysgol Busnes Caerdydd a'r SYG, i gynhyrchu data ystadegol ar economi Cymru ynghyd a'i ddehongli. Mae'r allbynaun wedi bod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am y farchnad wrth inni lywio'r cyfnod economaidd mwyaf cythryblus mewn dros ddegawd a bydd yn parhau i lywio ein polisi yn y dyfodol. Canolbwyntiodd ymchwil bwrbasol yn y flwyddyn ar effeithiau Covid-19 ac ymyriadau lliniarol Llywodraeth Cymru a'r DU i amddiffyn cymaint o fusnesau a swyddi â phosibl. Gan edrych ymlaen at 2022, byddwn yn gweithredu'r argymhellion o'r adolygiad o'r gwasanaeth ac yn ehangu'r ystod o bynciau a phartneriaid ymchwil yr ydym yn ymgysylltu â nhw.

Newid ein ffordd o weithio

Yn nyddiau cynnar y pandemig, yr oedd busnes fel arfer i raddau helaeth wedi'i atal wrth i ni symud y tîm cyfan bron i gefnogi cyflawni Cynllun Benthyriad Busnes Covid-19 Cymru. Ein hagwedd arferol tuag at wasanaeth cwsmeriaid yw bod gan bob cwsmer swyddog ymroddedig, enwebedig trwy'r broses fuddsoddi. Rhoddyd hyn ar saib hefyd wrth inni ad-drefnu i mewn i unedau prosesu, a phob tîm bach yn canolbwyntio ar gam penodol yn y broses. Roedd y dull hwn yn caniatáu inni ymateb i nifer y ceisiadau ar gyflymder ac yn golygu bod pobl a oedd yn cael eu symud o unrhyw ran o'r busnes yn gallu cael eu hyfforddi'n gyflym. Sbardinodd hyn hefyd rywfaint o feddwl creadigol a ffres am y ffordd yr ydym yn rheoli risg sydd wedi dod â buddion y tu hwnt i gyflawni'r gronfa. Yr oedd llawer o'r gwelliannau hyn, a ysgogwyd o achos brys y sefyllfa, wedi cael ei amsugno i'n gwaith beunyddiol wrth i ni ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd.

Rwy'n hynod falch o'r ffordd yr ymatebodd y tîm i'r argyfwng, rhoi cwsmeriaid yn gyntaf a gweithio oriau eithriadol o hir o dan amgylchiadau personol anodd a oedd yn wir am weddill y wlad hefyd. Ysbryd y tîm, ei ffocws ar gyflawni a'r awydd i wneud y gorau dros economi Cymru fu cryfder y busnes erioed, a chefnogodd y rhinweddau hyn y misoedd cynnar hynny.

Does dim os nac oni bai, yn sgil y newidiadau gorfodol i'r trefniadau gweithio fe ddaeth hyn â'i heriau, yn enwedig i'r rheini yn delio gydag addysgu gartref, cyfrifoldebau gofalu neu mewn rhai achosion, yn ynsu. Er bod dychwelyd i'r swyddfeidd wedi cael ei groesawu, 'rydyn ni serch hynny, yn benderfynol o gadw yr agweddau gorau ar gynllun mwy hyblyg tuag at leoliad, gan leihau ein hól troed carbon a chostau gweithredu.

Byddwn hefyd yn parhau i adeiladu ar y gwelliannau sylweddol yn ein cyfathrebu mewnol a rhagleni lles, sydd, yn ôl yr hyn a ddywed ein cydweithwyr wedi gwneud cyfraniad materol i'r busnes gan gynnal rhywbeth cadarnhaol ac iach o ran diwylliant tra ar wasgar.

Mae'r rhain yn fesurau a fydd yn cyfrannu tuag at ein parhad i anelu at fod yn gyflogwr o ddewis yn y gwasanaethau ariannol ac a'r sectorau datblygu economaidd wrth inni wynebu cystadleuaeth lymach am ddoniau yn ystod yr adferiad.

Edrych ymlaen

Wrth i gyfyngiadau lacio ac wrth i effeithiau'r rhaglen frechu gael eu gweld, mae yna resymau i fod yn ofalus optimistaidd. Adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol gyfradd uwch o enedigaethau busnes na marwolaethau yng Nghymru, mewn cyfarbyniad â darlun ehangach y DU lle'r oedd y gwrthwyneb yn wir. Adlewyrchir hyn yn ein data ein hunain ar gyfer y flwyddyn lle cynyddodd buddsoddiadau mewn busnesau yn dechrau o'r newydd 32% o £5.7m i £7.5m a chyfaint busnes 67% o 73 i 122.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn lansio ymgyrch ymwybyddiaeth ecwiti genedlaethol, i ddiffinio'r broses godi arian ac annog perchnogion busnes i ystyried yr ystod lawn o opsiynau cyllid sydd ar gael iddynt. Bydd buddsoddiad ecwiti yn opsiwn cynyddol bwysig i fusnesau sy'n tyfu mewn economi lle mae cwmniau wedi ymgymryd â lefelau dyled uwch na'r arfer. Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen trawsnewid digidol i gefnogi ein lefelau buddsoddi uwch, gan anelu at leihau ein cost cyflawni a gwella hygyrchedd a thryloywder i gwsmeriaid.

Gofyniad strategol arall fydd parhau i ddatblygu mwy o dryloywder a bwriad yn ein dull gweithredu tuag at ACLI (Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu). Fel banc datblygu rydym yn bodoli i wneud gwahaniaeth yn y marchnadoedd ariannol ar gyfer busnesau bach a chanolig (BBaChau) yng Nghymru, gan wella mynediad at ystod ehangach o offerynnau ariannol, cefnogi cymunedau trwy greu swyddi a denu ystod fwy amrywiol o fuddsoddiad sector breifat. Er bod ein model cyflawni cronda wedi bod â buddion cymdeithasol amlwg ers amser maith sy'n gwneud y sefydliad yn un o'r buddsoddiwyr gyda'r effaith mwyaf rhagweithiol yn y DU, rydym bellach yn troi ein sylw at ystod ehangach o ystyriaethau yn y ffordd yr ydym yn gweithio gyda chwsmeriaid a sut rydym yn rhedeg ein busnes ein hunain.

Wrth i ni edrych ymlaen at flwyddyn fwy gobeithiol, rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu'r economi a sut y gallai'r rhain effeithio ar sectorau a busnesau unigol. Bydd ein ffocws yn parhau i gyflawni ar gyfer ein cwsmeriaid a chwarae ein rhan wrth gefnogi adferiad economi Cymru.



Giles Thorley
Prif Weithredwr
22 Medi 2021

Uchafbwyntiau performiad buddsoddiadau busnes fel arfer

£ +2%

£103.3m | £105.6m
19/20 | 20/21

Buddsoddiad blynnyddol

£ -12%

457 | 402
19/20 | 20/21

Nifer y buddsoddiadau

-21%

£75.9m | £60.0m
19/20 | 20/21

Buddsoddiad sector breifat

1:0.73 | 1:0.57
19/20 | 20/21

Cymhareb YSP

-18%

4,022 | 3,292
19/20 | 20/21

Swyddi wedi'u creu neu eu diogelu

UCHAFBWYNTIAU PERFFORMIAD

Targed pum mlynedd

- Bydd Buddsoddiad Blynnyddol yn cyrraedd £80m erbyn 2022
- Cyflawnir buddsoddiad sector preifat ar gymhareb o 1:1.15
- Cefnogir Creu 20,000 o swyddi yn hytrach na diogelu
- Cefnogi 1,400 o Fusnesau


Perfformiad yn erbyn targedau pum mlynedd

Yn y lansiad, ymrwymodd y Banc Datblygu i gyflawni targedau cyflawni uchelgeisiol i greu effaith sylwedol ar economi Cymru ar gyfer y cyfnod 2017-2022. Dangosir cynnydd yn erbyn pedwar maes craidd buddsoddi uniongyrchol, trosedd y sector breifat, nifer y busnesau a swyddi isod:

£ Cyfanswm buddsoddiad 20/21

	19/20	20/21
Busnes fel Arfer (BfA)	£103.3m	£105.6m
Cynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru (CBBCC)	£dim	£92m
Cyfanswm	£103.3m	£197.6m


Buddsoddiad




🔒 Buddsoddiad sector breifat (BSB)



กระเป๋า Swyddi



💬 Busnesau



Perfformiad buddsoddi 20/21

Buddsodwr tymor hir


47%

o'r holl buddsodiadau i gwsmeriaid presennol

Buddsoddiad dechrau busnes

+32%
£7.5m

Cynyddodd buddsodiadau dros £1m



30

o fusnesau wedi cael buddsoddiad o fwy na £1m

Buddsodiadau ecwiti



22k

Maint y fargen ar gyfartaledd

237

Nifer y benthyciadau

13.8m

ecwiti yn ei gyfanwydd

↓

9.4m

wedi'i buddsoddi mewn

↓

38

mentrau technoleg

FW Capital

+67%
£26m | £43.4m*

Buddsoddiad blynnyddol

19/20 | 20/21

+139%
£38m | £90.7m*

Buddsoddiad sector breifat

19/20 | 20/21

93 | 138*

Businessau a gefnogir

19/20 | 20/21

577 | 935*

Swyddi wedi'u creu neu eu diogelu


19/20 | 20/21

*Gan gynnwys cymorth benthyciad CBYBC

Dadansoddiad rhanbarthol

Gogledd Cymru

£30.4m
19/20
£25m
20/21 (BfA)
£21.3m
20/21 (CBBCC)



Canolbarth a Gorllewin Cymru

£34.4m
19/20
£31m
20/21 (BfA)
£27.2m
20/21 (CBBCC)



De Cymru

£38.7m
19/20
£49.6m
20/21 (BfA)
£43.5m
20/21 (CBBCC)



Datblygu eiddo

70,892

troedfedd sgwâr o ofod masnachol

£48.8m

Gwerth prosiectau

420

Uned tai

43%

£ cynnyd mewn buddsodiadau eiddo

Angylion Buddsoddi Cymru

31

Nifer y buddsodiadau

£2.6m

Gwerth buddsodiadau

254

Sylfaen buddsoddwyr

9%

Buddsoddwyr benywaid

MODEL BUSNES

Rydyn ni'n creu gwerth ariannol a chymdeithasol tymor hir trwy ddefnyddio'r cyfalaf rydyn ni'n ei godi, y bobl rydyn ni'n eu cyflogi a'n perthnasoedd â rhanddeiliaid a'r gymuned fusnes. Rydym yn rheoli'r adnoddau hyn yn unol â'n gwerthoedd craidd sy'n gyrru ein hymddygiad wrth gyflawni yn erbyn ein hamcanion a thuag at gyflawni ein gweledigaeth a'n cenhadaeth.

Mae ein gweithgaredd buddsoddi a'n gwasanaethau cysylltiedig o fudd i fusnesau unigol trwy ddarparu'r cyllid sydd ei angen arnynt, ac o fudd i economi Cymru am ei fod yn annog busnesau i ddechrau a thyfu. Mae cymdeithas Cymru yn elwa pan fydd y busnesau hynny yn creu mwy o swyddi a chyfleoedd mewn cymunedau lleol.

Mae trethdalwyr Cymru yn elwa pan fydd enillion ar fuddsoddiad yn cael eu hailgylchu i gefnogi mwy o fusnes neu eu dychwelyd i'r pwrs cyhoeddus.

Rydym yn mesur y gwerth hwn trwy fuddsoddiad uniongyrchol, arian gan y sector breifat a fuddsoddyd ochr yn ochr â ni, creu a diogelu swyddi, tai a adeiladwyd ac adeiladau masnachol a ddatblygwyd. Rydym yn gweithio i ddeall a mesur effeithiau cymdeithasol ac macro-economaidd ein gweithgaredd ymhellach.

Mae perfformiad cronfeydd unigol yn cael ei fesur yn ôl cronfeydd a fuddsoddyd a chyfalaf yn cael ei ddychwelyd trwy ad-daliadau benthyciad neu fuddsodiadau ecwiti a ymadawyd.

Adnoddau

Cronfeydd

Mae gennym £780m o gyfalaf ar gael i'w ddefnyddio i gefnogi gweithgaredd datblygu busnes ac eiddo. Gweler tudalen 13.

Pobl

Rydym yn cyflogi 238 o bobl mewn 11 o leoliadau ar draws y busnes. Mae ein tîm yn hanfodol o ran cyflawni gwybodaeth leol y gwyddwn fod perchnogion busnesau bach yn ei werthfawrogi. Gweler tudalen 57-61.

Perthnasoedd

Mae adeiladu a meithrin perthnasoedd â chwsmeriaid a rhanddeiliaid yn hanfodol er mwyn deall y farchnad a diwallu ei hanghenion. Gweler tudallenau 56-59.

Prosesau

Gweithgaredd buddsoddi

Mae ein gweithgaredd buddsoddi yn cynnwys gwasanaethau rheoli cronfeydd fel buddsoddi a chasglu ad-daliadau ynghyd â swyddogaethau cymorth fel cyllid, marchnata ac AD.

Gwasanaethau eraill

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys ein cangen ymchwil, rhwydwaith angylion busnes, gwasanaethau rheoli i Lywodraeth Cymru ar gyfer Cymorth i Brynu - Cymru, Hunanadeiladu Cymru a'n busnes rheoli cronfeydd masnachol, FW Capital.

Benthyciadau a buddsodiadau busnes

DEC | **ABC** | **CiB-C** | **FW Capital** | **Hunanadeiladu Cymru**

Effaith

Cyfalaf wedi'i ddychwelyd neu ei ail-fuddsoddi

Swyddi

Buddsodiadau yn y sector preifat

Tai wedi'u hadeiladu

Tr sŵgwr o eiddo masnachol wedi'i adeiladu

CRONFEYDD

Mae Banc Datblygu Cymru yn rheoli ystod o gronfeydd sy'n canolbwytio'n bennaf ar ddarparu buddsoddiad i fusnesau micro i ganolig ar draws cylch bywyd busnes. Mae'r Banc Datblygu wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i greu cyfres o gynhyrchion sy'n diwallu anghenion y farchnad yn uniongyrchol trwy hygrychedd a hyblygrwydd o fewn amodau cyffredinol y farchnad.

Yn 20/21 ymrwymwyd i £425.6m o gyllid newydd i gronfeydd busnes y Banc Datblygu. Yn ogystal, mae'n darparu'r datrysiaid i'r gwasanaeth gweinyddol ar gyfer y cynllun Cymorth i Brynu - Cymru.

Cronfeydd ar 31 Mawrth 2021	Swm y Cyllid (£m)	Dyddiad Diweddu Buddsoddi
Cronfa Benthyciad Busnes Covid-19 Cymru	92	2020
Cronfa Dros Dro BMT	9.5	2020
Cymorth i Brynu - Cymru	634.6	2023
Cronfa Twf Cyfalaf Cymru	25	2021
Cronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru	8	2023
Cronfa Busnes Cymru	204	2023
Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru	25	2026
Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru	500	2031
Cronfa Sbarduno Technoleg Cymru II	20	2025
Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru	32.5	2026
Cronfa Eiddo Masnachol Cymru	55	2029
Cronfa Achub ac Ailstrwythuro II	25	2029
Cronfa Safleoedd Segur Cymru	55	2033
Cronfa Datblygu Eiddo Cymru II	47	2033
Hunanadeiladu Cymru	40	2036
Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru	50	2029
Cronfa Ynni Lleol	12.5	Parhaus
FW Capital ar 31 Mawrth 2021	Swm Cyllido (£m)	Dyddiad Diweddu Buddsoddi
Cyllid Dyled Cronfa Buddsoddi Pwerdy'r Gogledd (CBPG) - Gogledd Orllewin	81.9	2022
Cyllid Dyled Cronfa Buddsoddi Pwerdy'r Gogledd (CBPG) Tees Valley a Cumbria	61.3	2022
Cronfa Eiddo'r Gogledd Ddwyrain	10	2025
Cronfa Catalydd Tees Valley	10	2023

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR BUDDSODDI

Cefnogi ein cwsmeriaid.



Mike Owen

Cyfarwyddwr Buddsoddi'r Grŵp

"Fodd bynnag, mae arwyddion cynnar o adferiad ac rydym wedi gweld hyn yn dechrau newid wrth i gwmniâu edrych tuag at y dyfodol."

Diwallu ein cylch gwaith

Cafodd haner cyntaf y flwyddyn ei dominyddu gan yr ymdrech i gefnogi busnesau a oedd yn cael eu heffeithio'n negyddol gan bandemig Covid-19. Yn anhygoel, fe wnaethom ddatblygu a defnyddio cronfa argyfwng wedi'i thargedu'n benodol i gefnogi busnesau yr effeithiwyd arnynt mewn wyth wythnos. Roedd buddsoddi £92m i mewn i dros 1,300 o fusnesau yn gofyn am ymdrech enfawr gan gydweithwyr ar draws pob adran o'r Banc Datblygu.

Fel banc datblygu rhan o'n rôl ni yw ymyrryd a chefnogi busnesau pan fydd methiant systemig yn digwydd, fel yn 2009/10, lle gwelsom dynnu cyllid yn ôl gan fenthycwyr traddodiadol. Ryw'n falch o'r ffordd y camodd fy nghydweithwyr i'r bwlc'h i sicrhau bod busnesau'n derbyn yr arian hanfodol yr oedd ei angen arnynt ar gyflymder nes i CBYBC a Benthyciadau Bownsio Nôl ddod yn gwbl weithredol.

Perfformiad buddsoddiadau

Roeddym yn rhagweld y byddai yna arafu mewn gweithgaredd cyllido ar gyfer ail hanner y flwyddyn ond fe wnaeth realiti wyrdroi'r disgwyliad a chyflawnwyd ein perfformiad buddsoddi busnes fel arfer gorau, gan fuddsoddi £149m ledled Cymru a gogledd Lloegr. Sbardunwyd y cyflawniad hwn i raddau helaeith gan sector adeiladu a datblygu eiddo bywiog a bu dyblu yn nifer y busnesau a ddechreuodd o'r newydd a gefnogwyd. Tyfodd maint y fargan ar gyfartaledd wrth i'r galw symud ein buddsoddiad i'r bwlc'h cyllido cynyddol a grëwyd gan newidiadau yn yr awydd risg gan fenthycwyr traddodiadol.

Ffactor arall yn ein perfformiad buddsoddi'r llynedd oedd y perfformiad record uchaf erioed o £43.4m gan ein his-gwmni masnachol FW Capital, gyda chefnogaeth achrediad CBYBC. Llwyddodd FW Capital hefyd i ennill arian ychwanegol fel rhan o Gronfa Buddsoddi Pwerdy Gogleddol Banc Busnes Prydain a tharo nifer o gerrig milltir buddsoddi gan gynnwys £10m o Gronfa Eiddo'r Gogledd Ddwyrain a hwyluswyd dros £30m i fusnesau Tees Valley o Gronfa Fuddsoddi Pwerdy'r Gogledd a'r sector preifat.

Roedd y sectorau eiddo ac adeiladu yn brysur ar ôl i safleoedd ail agor, gyda'r hwb yn y galw am gartrefi newydd yn ogystal â'r gostyngiadau mewn cyfraddau treth stamp. Fodd bynnag, cododd heriau ar ffurf prinder llafur a chyflenwadau, gyda grymoedd deublyg Brexit a chyfnodau clo a ysgogwyd gan Covid-19 yn effeithio ar brisio deunyddiau a yrrwyd ar i fyny. Cafodd Cymorth i Brynu - Cymru ei flwyddyn brysuraf hyd yma a sicrhodd drydydd cam o gyllid i gefnogi prynwyr tro cyntaf yng Nghymru.

Gweithio gyda chwsmeriaid

Yn ogystal â buddsoddi, mae gennym hefyd ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi ein portffolio presennol o fusnesau. Fe wnaethom symud yn gyflym; gefnogi cwsmeriaid i reoli eu llif arian trwy'r flwyddyn, gan gynnig gwyliau ad-dalu i helpu i warchod arian parod wrth fynd i gyfnod o amodau economaidd ansicr. Gwelwyd y cyflwyniadau i ddarparwyr cyllid eraill gynnydd o 107% ar y flwyddyn flaenorol.

Nodwedd allweddol o'n cefnogaeth portffolio, ac un o'r ffyrdd yr ydym yn gwahaniaethu â nifer o ddarparwyr y sector breifat, yw darparu swyddog portffolio penodol, enwebedig ar gyfer pob busnes. Disgwylir i'r rôl hon helpu cwsmeriaid i wneud y defnydd gorau o'r holl Iwybrau cymorth sydd ar gael. Eleni, roedd y blaenoriaethau'n cynnwys sicrhau bod cwsmeriaid yn cyrchu gwyliau Cyllid a Thollau EM wedi'u targedu at rwydwaith cymorth busnes cymhleth gan hwyluso atgyfeiriadau at fenthycwyr eraill, buddsoddwyr a broceriaid cyllid, a sicrhau bod cwsmeriaid yn defnyddio cylluniau fel credyddau treth Ymchwili a Datblygu a Chronfa'r Dyfodol.

Yn ogystal, fe wnaethom sicrhau bod cwsmeriaid yn parhau i gael gwybod yngylch yr opsiynau sydd ar gael iddynt er mwyn rheoli llif arian, fel y cyllun seibiant swyddi, cylluniau hunangflogedig, a dulliau gweithredu tuag at daliadau cyflenwyr eraill megis ardrethi a landlordiaid.

Adeiladu busnesau gwell

Er gwaethaf y pwyslais ar lif arian, rydym wedi parhau i gefnogi cwsmeriaid i adeiladu busnesau mwy cadarn trwy gyflwyniadau i'n rhwydwaith o gynghorwyr a darparwyr hyfforddiant. Roedd hyn yn cynnwys atgyfeiriadau at yfarwyddwyr a chwmniâu cynggor

profiadol, cyrsiau hyfforddiant rheoli, a'r amrywiol gynlluniau hyfforddi a chymorth a redir gan Busnes Cymru gyda chyflwyniadau cwsmeriaid wedi cynyddu 106% ar y flwyddyn flaenorol. I ategu'r rhain, gwnaethom gynnwl cyfres o sesiynau ar-lein, gyda ffocws ar gadernid busnes, gan archwilio sut i adeiladu busnesau gwell trwy wella cynhyrchiant, arloesedd, gallu rheoli a thrwy ehangu i farchnadoedd newydd.

Buddsoddiad ecwiti ac angel

Cymerodd buddsoddiad ecwiti 'sedd gefn' i ryw raddau gyda llawer o fusnesau sefydledig yn blaenoriaethu hylifeeddyr byr dros dwf.

Gan fynd yn groes i'r duedd, hwylusodd Angylion Buddsoddi Cymru, 31 rownd ariannu, sef y record fwyaf erioed, a oedd yn cynnwys 70 o fuddsoddiadau angel unigol a hefyd cynyddwyd nifer y buddsoddwyr angylion cofrestredig o 67, gan gynnwys 26 o angylion tro cyntaf a naw buddsoddwr benywaid. Cynyddodd buddsoddwyr arweiniol ar gyfer syndicadau angel o bump i 12.

Fe wnaethom barhau i weld rhywfaint o alw am fuddsoddiad gan fusnesau cam cynnar lle nad yw dyled fel arfer yn opsiwn ymarferol. Mae heriau o ran sicrhau cyd-fuddsoddiad digonol gan y sector preifat yn parhau a byddant yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i ni yn 21/22.

Fodd bynnag, mae arwyddion cynnar o adferiad ac rydym wedi gweld hyn yn dechrau newid wrth i gwmniâu edrych tuag at y dyfodol. Mae perchnogion a oedd wedi gohiriog gwerthu eu busnesau bellach yn chwilio am atebion cyllido ac mae mwy o ddiddordeb mewn buddsoddi mewn ecwiti fel ffordd i gryfhau mantolenni a rhoi'r cyfalafr amyneddgas sydd ei angen ar fusnesau i dyfu.

Adeiladu ein tîm a'n harbenigedd

Mae adborth gan gwsmeriaid yn dweud wrthym fod BBaCh yn anad dim, yn gwerthfawrogi gweithio gyda phobl sy'n deall yr heriau a'r boddhad o redeg busnes bach. Rydym yn ystyried hyn yn ein model busnes o gael pobl yn hytrach nag algorithmau yn gwerthuso cynigion ac yn gwneud penderfyniadau ar fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae'r arbenigedd hwn yn arbennig o bwysig o ran cefnogi busnesau newydd neu wneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau ecwiti, sydd yn y pen draw yn benderfyniadau i'r timau rheoli cefn.

Yn 2019, treialodd y Grŵp Iwybr gyra ar gyfer gweithwyr proffesiynol buddsoddi, yn cynnig strwythur ar ffurf llwybr datblygiad proffesiynol i adeiladu gyra ar draws y Banc Datblygu ac FW Capital gyda'r amcanion o wella ein cynnig i reciwtiaid newydd a chystadlu am ddoniau yn enwedig ymhliith y garfan iau. Ymhliith y buddion eraill mae lleihau risg o ran cyllunio olyniaeth a darperir cyfle cyfartal ar draws y Grŵp trwy ffurfioli'r sgiliau technegol a'r rhai sy'n seiliedig ar gymhwysedd sy'n angenreheiol i symud ymlaen.

Ffurfiolodd adolygiad yn 2020 y llwybr hwn ac eleni, symudodd pump o unigolion yn eu blaen o fod yn swyddogion cynorthwyo buddsoddi i fod yn swyddogion buddsoddi ac fe aeth tri ymlaen i fod yn uwch swyddogion buddsoddi.

Mike Owen
Cyfarwyddwr Buddsoddi'r Grŵp
22 Medi 2021

BUDDSODDIADAU A GWASANAETHAU ERAILL

Rydym yn buddsoddi mewn busnesau ledled Cymru i'w helpu i ddechrau, cryfhau a thyfu. Dyma ddetholiad o'r busnesau rydyn ni wedi gweithio â nhw eleni.



18) Dechrau busnes

Cyllid o £1,000 i helpu busnesau Cymru i ddechrau a chefnogi eu blynnyddoedd cynnar.



24) Tyfu busnes

Buddsoddiadau benthyciad ac ecwiti hyd at £10 miliwn i gefnogi busnesau Cymru a'u helpu i gyflawni eu cynlluniau twf.

32) Benthyciadau micro llwybr cyflym

Benthyciadau rhwng £1,000 a £25,000 ar gyfer busnesau sefydledig yng Nghymru.



34) Datblygu menter dechnoleg

Buddsoddiadau ecwiti sbarduno, cam cynnar a dilynol ar gyfer mentrau technoleg sydd â photensial twf uchel.



38) Prynus busnes

Cyllid i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o berchnogion busnes, gan helpu timau rheoli i brynu busnes sy'n bodoli eisoes.



40) Ariannu datblygiad eiddo

Benthyciadau eiddo preswyl, defnydd cymysg a masnachol i helpu datblygwyr bach i ganolig.



44) Angylion Buddsoddi Cymru

Mae Angylion Buddsoddi Cymru yn cysylltu buddsoddwyr â busnesau Cymru ac yn datblygu'r ecosystem o fuddsoddwyr yng Nghymru.

46) Dirnad Economi Cymru

Mae Dirnad Economi Cymru yn coladu a yn dadansoddi data ar farchnad gyllid Cymru a yn cyfoethogi dealtwriaeth o economi Cymru.

48) Cymorth i Brynu - Cymru

Mae Cymorth i Brynu - Cymru yn darparu benthyciadau ecwiti a rennir i brynwyr cartrefi newydd yng Nghymru.

49) Hunanadeiladu Cymru

Mae Hunanadeiladu Cymru yn helpu i ariannu pobl yng Nghymru sy'n dymuno adeiladu eu cartref eu hunain.



50) FW Capital

Mae FW Capital yn darparu arian yng Ngogledd Lloegr, gan ehangu ein rhwydwaith a'n henw da ledled y DU. Mae'n rheoli arian ar gyfer Banc Busnes Prydain, Awdurdod Cyfun Tees Valley, LEP y Gogledd Ddwyrain a Santander.

Dechrau busnes

Cyllid o £1,000 i helpu busnesau Cymru i ddechrau a chefnogi eu blynnyddoedd cynnar.

CLEANY QUEENY



Mae busnes yn edrych yn sgleiniog a disglaир ar gyfer y busnes glanhau yng Nghasnewydd, Cleany Queeny, ar ôl i'r cwmmi glanhau sicrhau micro fenthyciad o £10,000 gan y Banc Datblygu.

Defnyddiwyd y micro fenthyciad i dalu costau hyfforddi staff ac offer newydd i helpu gyda glanhau dwfn Covid 19. Mae diheintio a glanhau dwfn yn rhan o'r ystod newydd, ehangach o wasanaethau masnachol a phreswyl a gynigir gan y busnes.

Yn dilyn y benthyciad o £10,000, llogodd Rheolwr Gyfarwyddwr Cleany Queeny, Charmain Edwards, reolwr cyllid, cynorthwyydd swyddfa ychwanegol ac wyth glanhawr arall.

Mae Charmain a'i thîm yn cwmpasu Casnewydd, Caerdydd, Y Wysg, Pont-y-pŵl, Abercarn, Cwmbrân - ac yn edrych i ehangu ledled de Cymru.

Casnewydd, De Cymru £10,000 Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru

"Mae benthyciad y Banc Datblygu wedi ein helpu i arallgyfeirio i gynnig ystod ehangach o wasanaethau lle mae galw amdanynt trwy ein galluogi i brynu offer newydd a thalu am hyfforddiant staff."

Charmain Edwards, Rheolwr Gyfarwyddwr, Cleany Queeny



ANGLESEY SEA FOOD LTD

Mae galw mawr am gyn-ddalwyr pysgod y Llynges Frenhinol, Sion Riley ers iddo lansio Anglesey Sea Food Ltd ym mis Gorffennaf 2020. Cymerodd ofal am gwch pysgota'r Pan Arctig yn dilyn micro fenthyciad cychwynnol gan y Banc Datblygu.

Daeth Sion yn ymwybodol bod cwch, gyda hawlau pysgota llawn, i fod i fynd ar werth. Aeth at berchenog y cwch ynglŷn â'i chymryd drosodd ac yna ymchwilio i ba gefnogaeth oedd ar gael i fusnesau newydd yn Ynys Môn. Siaradodd â'r elusen leol Môn CF a'i rhoddodd mewn cysylltiad â'r Banc Datblygu a Busnes Cymru. Derbyniodd gefnogaeth gan Busnes Cymru i greu cynllun busnes ac yna gwnaeth gais am fenthyciad cychwynnol i helpu i brynu'r cwch pysgota.

**Ynys Môn, Gogledd Cymru
£ Heb ei ddatgelu
Cronfa Micro
Fenthyciadau Cymru**

"Mae gweithio ar y môr, pysgota, ac yn fy nghymuned leol wedi bod yn freuddwyd i mi erioed. Ni fyddai unrhyw beth, ddim hyd yn oed pandemig yn fy rhwystro i. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Banc Datblygu am eu cefnogaeth yn ystod y cam cychwynnol hwn o fy musnes."

**Sion Riley, Perchenog,
Anglesey Sea Food Ltd**

BRIGHTER MINDS CHILDCARE

Lansiwyd gwasanaeth gofal plant cofleidiol newydd Risca, Brighter Minds Childcare ym mlwyddyn ariannol 20/21 wedi iddynt gael micro fenthyciad gan y Banc Datblygu.

Wedi'i sefydlu gan Helen Morris, mae Brighter Minds Childcare yn annog dysgu trwy chwarae. Maent yn cynnig cymorth cofleidiol, brecwast, clwb ar ôl

ysgol ac mae clwb gwyliau ar gael i rieni plant sy'n mynychu ysgolion cynradd lleol. Mae ganddyn nhw ddarpariaeth ar gyfer hyd at 45 o blant.

Yn dilyn y buddsoddiad, fe wnaethant drosi garej fawr yn eu canolfan ar Ffordd Gwendoline yn ystafell ychwanegol ar gyfer eu cyfleuster gofal plant disglair a chyfeillgar.

LUXSTAR LTD

Lansiodd Carl Harris, mentergarwr o Gasnewydd, fusnes chauffer preifat Luxstar Ltd gyda chefnogaeth micro fenthyciad o £24,000 gan y Banc Datblygu ym mis Tachwedd 2020. Derbyniodd gefnogaeth hefyd gan Busnes Cymru, Cyngor Casnewydd ac USKE.

Yn wyneb diswyddiad oherwydd pandemig Covid-19, bachodd Carl ar y cyfle i droi ei brofiad a'i angerdd i mewn i'w fusnes ei hun. Gydag wyt hlynnedd o brofiad gyrru proffesiynol, roedd Carl wedi gweithio gyda Llysgenhadaeth America yn darparu gwasanaethau i gyngres, NATO, Gwylwyr y Glannau'r Unol Daleithiau, arlywyddion a chyn-lywyddion.

Her gyntaf Carl oedd llunio cynllun busnes cadarn. Roedd ganddo lawer o wybodaeth am weithio yn y diwydiant cludo ond dim profiad o redeg ei gwmni ei hun. Gyda chefnogaeth Busnes Cymru cynhaliodd ymchwil i'r farchnad ac yna cynnwys ei holl ganfyddiadau mewn cynllun busnes cyn gwneud cais am ficro fenthyciad gan y Banc Datblygu.

I wneud cais am fenthyciad cychwynnol gan y Banc Datblygu, mae angen i fusnesau neu unig fasnachwyr ddarparu cynllun busnes, rhagolygon llif arian ar gyfer eich blwyddyn gyntaf, a gwybodaeth reoli gyfoes. Gall Busnes Cymru eich helpu i dynnu'r wybodaeth hon at ei gilydd am ddim.

Gyda chynllun busnes ar waith, llwyddodd Carl i sicrhau cyllid cychwynnol a phrynu cynllun cerbyd chauffer o safon uchel addas.

**Caerffili, De Cymru
£50,000
Cronfa Micro
Fenthyciadau Cymru**

"Rydym yn credu mewn darparu amgylchedd anogol lle gall plant ffynnu a lle mae chwilfrydedd, antur a hwyl wrth galon y dysgu. Diolch i gefnogaeth y Banc Datblygu, gallwn gynnig ein gwasanaethau a'n hethos dysgu trwy chwarae i deuluoedd lleol."

**Helen Morris, Sylfaenydd,
Brighter Minds Childcare**

**Casnewydd, De Cymru
£24,000
Cronfa Micro
Fenthyciadau Cymru**

"Rydw i wedi bod yn ymchwilio i sefydlu fy musnes fy hun ers nifer o flynyddoedd. Arweiniodd y cydberthynasau yr oeddwn wedi'u hennill â phobl dros y blynnyddoedd, y wybodaeth a gefais gan y cleientiaid yr oeddwn wedi'u gyrru, a'r ymddiriedaeth a gefais i mi fynd ati i archwilio cyfleoedd i ddechrau fy musnes chauffeur fy hun. Yn wyneb diswyddiad oherwydd pandemig Covid 19, penderfynais mai nawr oedd yr amser i fentro a dod yn fos arnaf fi fy hun."

Carl Harris, Sylfaenydd, Luxstar Ltd

CARIAD GLASS

Gwelodd yr artistiaid Gwydr Lliw, Cariad Glass, hwb mewn gwerthiannau ar-lein yn ystod y broses gloi ar ôl datblygu cit mosaig gwydr cartref er mwyn rhoi ateb creadigol i gwsmeriaid crefftus. Cawsant micro fenthyciad i gefnogi cyfalafr gweithio a thwf ym mis Ebrill 2020.

Mae'r tîm gŵr a gwraig Justine a Chris Dodd yn defnyddio dulliau a thechnegau traddodiadol i greu darnau celf a gwydr pwrrpasol, gan arbenigo mewn gwaith comisiwn ac adfer. Maent hefyd yn cynnig cyrsiau wyneb yn wyneb yn eu stiwdio i'r rheini sy'n dymuno dysgu mwy am greftau gwydr.

Yn awyddus i arallgyfeirio a chynnig rhywbeth i'w wneud gartref i gwsmeriaid sy'n colli allan ar gyrsiau wyneb yn wyneb, lluniodd y pâr y syniad o greu panel mosaig gwydr crog bach y gallwch ei wneud gartref. Fe wnaethant ffilmio'r broses o lunio brithwaith gwydr gan ddefnyddio offer domestig a rhoi'r fideo ar eu tudalen Facebook. Buan y cawsant eu boddi gan geisiadau i brynu'r citiau £25.

Ers hynny maent wedi symud i adeilad newydd ar y stryd fawr yn Llandysul ac wedi agor oriel o'r enw Cariad Creative Emporium.



Llandysul, Canolbarth Cymru
£ Heb ei ddatgelu
Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru

"Mae ein gwerthiannau fel arfer yn dod trwy orielau ac arddangosfeydd a oedd i gyd yn cael eu hatal. Mae ein siop wefan, yr Emporium Stained Glass wedi bod yn amhrisiaidwy i ni, ynghyd â'r gefnogaeth a gawsom gan y Banc Datblygu."

Justine Dodd, Cyd-berchenennog, Cariad Glass



Tyfu busnes

Buddsoddiadau benthyciad ac ecwiti hyd at £10 miliwn i gefnogi busnesau Cymru a'u helpu i gyflawni eu cynlluniau twf.

THE SHED BY JAMES SOMMERIN



Wedi'i leoli yn y Goods Shed yn y Barri gyda phrydles 15 mlynedd, mae 'The Shed gan James Sommerin' yn fwtyt 30 gorchudd sy'n eiddo i ac yn cael ei reoli gan Head in the Shed Limited; busnes newydd ei sefydlu gan y Cogydd Seren Michelin James Sommerin a'i wraig Louise.

Derbyniodd James micro fenthyciad o £50,000 gan y Banc Datblygu a grant o £60,000 Gan Croeso Cymru.

Dechreuodd James Sommerin ei yrfa yn 12 oed gan weithio ar fore Sadwrn mewn Bwyty Eidalaidd yng Nghasnewydd. Ar ôl gadael yr ysgol, cymerodd ei safle coginio amser llawn cyntaf yng Ngwesty Cwrt Bleddyng ger Y Wysg.

Oddi yno, yn 16 oed, y penderfynodd symud i'r Alban a gweithio yng Ngwesty Farleyer House o dan arweiniad y Prif Gogydd, Richard Lythe. Dysgodd Richard iddo ddealltwriaeth am dymhoroldeb, ansawdd a hanfod blas. Tra yn Yr Alban, coginiodd James ar gyfer agoriad Senedd Yr Alban ac roedd hefyd ar y rhestr fer fel 'Cogydd Ifanc y Flwyddyn Yr Alban'.

Yna cyfarfu James â'i wraig Louise ac ar ôl priodi a chael eu merch gyntaf, penderfynon nhw symud yn ôl i Gymru. Dechreuodd weithio yn y Crown / Goron yn Whitebrook ym mis Awst 2000 fel Sous Chef a daeth yn Brif Gogydd ddiwedd 2003. Cafodd James ei Seren Michelin gyntaf yn 2007.

Yna cyflawnodd seren Michelin yn 2016 yn ei fwtyt ei hun, a agorodd yn 2014. Mae ganddo hefyd dri Rosette AA ac ef oedd enillydd y Great British Menu ar gyfer Cymru yn 2009, 2010 a 2012 cyn cael ei enwi'n gogydd y flwyddyn Cymru 2017 yng Ngwobrau Bwyd Cymru.

'The Shed gan James Sommerin' yn meddianu'r adeilad rheilffordd Fictoraidd a ddatblygyd gan DS Properties (Goods Shed) Limited. Mae'r ganolfan adloniant a busnes bron â chael ei chwblhau yn dilyn buddsoddiad o £2.9 miliwn gan y Banc Datblygu. Mae'n rhan o'r Chwarter Arloesi yng Nglannau'r Barri, menter adfywio ar y cyd rhwng Cyngor Bro Morgannwg a Llywodraeth Cymru.

Y Barri, De Cymru
£50,000
Cronfa Micro
Fenthyciadau Cymru

"Gyda chefnogaeth ein cyllidwyr, mae gennym ni'r hyder i fuddsoddi ac edrychwn ymlaen at ddyfodol llwyddiannus, beth bynnag fydd y misoedd nesaf yn dod â ni i gyd."

James Sommerin, Cogydd a Chyfarwyddwr, 'The Shed by James Sommerin'

BY JAMES SOMMERIN

PRACTIS DEINTYDDOL OLD OAK

Mae'r deintydd llwyddiannus Dr Adam Llewellyn yn berchen ar ac yn rheoli tair meddygfa yn Llandeilo, Llanymddyfri a Chaerfyddin. Bydd ei bractis newydd, o faint mwy ym Mharc Pensarn yn disodli'r feddygfa bresennol yng nghanol tref Caerfyddin.


Derbyniodd Old Oak Dental Practice fenthyciad o £1.2 miliwn gan y Banc Datblygu i brynu a gosod practis deintyddol chwe chadar bwrbasol.

Cawsant hefyd arian grant gan Gyngor Sir Gaerfyddin i helpu gyda chostau cyffredinol y prosiect.

**Caerfyddin, Gorllewin Cymru
£1.2 million
Cronfa Busnes Cymru**

"Mae'r ddeintyddfa newydd yn caniatáu i fwy o ddeintyddion weithio'n ddiogel gyda'i gilydd, yn ogystal â darparu digon o le i barcio ar gyfer staff a chleientiaid. Rwyf wrth fy modd gyda'r gefnogaeth a gefais gan y Banc Datblygu, mae'r broses wedi bod yn llyfn er gwaethaf gweithredu yn ystod pandemig byd-eang."

Dr Adam Llewellyn, Partner Rheolaethol, Practis Deintyddol Old Oak

YSGOL NOFIO LIKEAFISH


Mae Ysgol Nofio Likeafish eisoes yn cyflwyno gwersinofio i ychydig dros 450 o blant. Ehangodd y cwmni gyda benthyriad o £400,000 gan y Banc Datblygu ar gyfer cyflleuster pwll newydd. Cefnogwyd Likeafish hefyd gan Fanc Lloyds trwy forgas masnachol a Chyngor

Sir Gaerfyddin i helpu gyda chostau prosiect. Mae'r cwmni'n bwriadu cynnwys dosbarthiadau rhieni a babanod yn ogystal â nofio oedolion ar ben eu rhaglen dysgu nofio bresennol. Mae'r pwll newydd hefyd wedi leoli ym Mharc Pensarn.

**Caerfyddin, Gorllewin Cymru
£400,000
Cronfa Busnes Cymru**

"Rydyn ni wedi bod yn helpu plant i ddysgunofio ar draws Sir Gaerfyddin ers dros 10 mlynedd bellach, cael ein pwll ein hunain oedd y cam rhesymegol nesaf i ateb y galw am ein dosbarthiadau hynod boblogaidd. Mae'r benthyriad gan y Banc Datblygu wedi gwneud y cam nesaf hwnnw'n gyraeddadwy ac rydym yn edrych ymlaen at groesawu hen ddisgyblion yn ôl yn ogystal â chwsmeriaid newydd."

Russell Sparks, Rheolwr Gyfarwyddwr, Ysgol Nofio Likeafish

THE GREEN GIRAFFE DAY NURSERY

Dyblodd y Green Giraffe Day Nursery Ltd yng Nghaerdydd nifer y meithrinfeidd y mae'n eu rhedeg diolch i fenthyciad dilynol o £100,000 gan y Banc Datblygu i ateb y galw cynyddol. Bellach mae gan y cwmni gofal plant poblogaidd leoliadau gofal dydd yn yr Parêd yn y Rhath, Radnor Road yn Nhreganna, yn ogystal â'r meithrinfeidd gwreiddiol ym

Mae Caerdydd a Ffordd yr Eglwys Gadeiriol. Mae The Green Giraffe yn cynnig bwyd cwbl organig i bob plentyn sy'n mynychu ac yn defnyddio cyfuniad o ddulliau Montessori ynghyd â Chyfnod Sylfaen y Blynnyddoedd Cynnar i gefnogi amgylchedd dysgu trwy chwarae. Mae'r feithrinaf cynnig gwasanaethau gofal plant rhwng tri mis a phum mlwydd oed.

BANYAN CARE HOMES LTD

Mae darparwr gofal arbenigol dementia a phobl hŷn methedig (BHM) wedi sefydlu Banyan Care Homes Ltd i brynu Cartref Gofal White Rose yn Nhredegear.

Mae White Rose yn gartref gofal pwrrasol sydd wedi'i gofrestru ar gyfer 32 o breswylwyr dros 65 oed, gan gynnwys y rhai â dementia. Fe'i hadeiladwyd ym 1990 ac mae cyfraddau deiliadaeth dros 95% yn nodweddadol, gyda mwyafri y

**Caerdydd, De Cymru
£100,000
Cronfa Busnes Cymru**

"Rydym yn ceisio darparu rhaglen ddysgu amrywiol a chytbwys i bob plentyn yn ein gofal. Mae ein dull wedi profi'n hynod boblogaidd ac, ar ôl gweithio'n agos gyda'n swyddog portffolio yn y Banc Datblygu daeth yn amlwg mai 2020 oedd y flwyddyn i ni ehangu ein teulu 'Green Giraffe' trwy agor dwy feithrinaf newydd."

**Andrea McCormack,
Cyfarwyddwr Meithrin, The Green Giraffe Day Nursery**

**Tredegar Newydd,
De Cymru
£750,000
Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru**

"Gwnaeth y dull agored a thryloyw y broses hon yn un ddi-dor; fe wnaethant wrando a chymryd diddordeb gwirioneddol yn ein dyheadau ar gyfer White Rose a'n cynlluniau ar gyfer Gofal Banyan yn y dyfodol. Mae eu cefnogaeth yn golygu ein bod wedi gallu diogelu gwasanaethau i breswylwyr ac amddiffyn 42 o swyddi."

**Shah Seehootoorah,
Cyfarwyddwr, Banyan Care Home Ltd**

NAISSANCE

Mae Naissance, y cwmni byw'n fegan o ffynonellau moesegol, yn ehangu gyda Phencadlys newydd yng nghanolbarth Cymru ar ôl iddynt gael benthyriad saith ffigur gan y Banc Datblygu.

Fe'i sefydlwyd yn 2005, ac mae'r cwmni'n creu olewau hanfodol heb greulondeb a masnach deg, olewau cludo, sebonau, halwynau a chlai, yn ogystal â chynhyrchion tylinio. Yn sail i'w gwerthoedd da, teimlo'n dda, dim ond cynhwysion naturiol mae Naissance yn eu defnyddio ac maen nhw'n canolbwntio ar gyrchu'n gyfrifol gyda Masnach Deg a chwmniau cydweithredol eraill ledled y byd.

Mae'r cwmni, sy'n cyflogi dros 100 o bobl yn eu gofod gweithgynhyrchu a warws yng Nghastell-nedd, wedi prynu pencadlys corfforaethol newydd ym Mhowys. Bydd swyddogaethau marchnata, strategaeth a rheoli eraill wedi'u lleoli yn eu swyddfeydd corfforaethol newydd yn Neuadd Glansevern yn Sir Drefaldwyn. Sicrhodd argaeledd cyfalaf trwy'r Banc Datblygu Cymru fel cartref corfforaethol Naissance.

Mae Glansevern Hall yn dŷ arddull Diwygiad Gwlad Groeg Rhaglywiaeth Gradd II a adeiladwyd rhwng 1801 a 1806.

Gyda chynaliadwyedd yn flaueniaeth i Naissance, bydd y Pencadlys newydd yn gweld nwyddau sy'n cael eu tyfu ar y safle yn cael eu defnyddio yn eu caffi a chreu cynhyrchion, ynghyd â sefydlu ynni cynaliadwy i ddarparu pŵer ar y safle. Bydd cwsmeriaid yn gallu ymweld â Glansevern i brofi Naissance a dysgu am broses cyrchu a gweithgynhyrchu cynhyrchion a cynhwysion cynaliadwy.

Aberriw, Canolbarth Cymru £ Saith ffigur Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru

"Mae planhigion a phobl wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd y lleoliad gwych hwn nid yn unig yn ffynhonnell rhai o'n cynhwysion naturiol ond hefyd yn lle i chi gael profiad ymarferol a phrofi'r hyn sy'n gwneud Naissance yn wahanol."

**Jem Skelding, Rheolwr
Gyfarwyddwr a Sylfaenydd,
Naissance**

VINDICO

Mae benthyriad chwe ffigur o'n Cronfa Busnes Cymru yn helpu arbenigwyr technoleg ac amgylcheddol yn Llanelli, Vindico, i gyflawni datblygiadau arloesol ansawdd aer sy'n arwain y ffordd ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy.

Lansiodd y cwmni eu rhwydwaith Think Air ym mis Mehefin 2021 ac eisoes dyma'r rhwydwaith monitro a mesur ansawdd aer gwledig a threfol cefndir anlywodraethol mwyaf yn y DU. Datblygyd y fenter gan Vindico a Phrifysgol Abertawe ac mae'n cynrychioli cam pwysig tuag at ddeall llygredd aer ac effaith PM2.5 (gronynnau aer bach), carbon deuocsiad, a llygryddion aer eraill - ar ein hiechyd a'n lles.

Mae cynnrych Think Air diweddaraf Vindico "TASK" (Think Air Schools Kit) wedi cael ei ddatblygu ochr yn ochr â phenaethiaid ac yn cyd-fynd â chwricwla cyfreol Cymru a Saesneg. Mae TASK wedi'i gynllunio ar gyfer plant o bob oed i adeiladu, codio a mesur yr amgylchedd o'u cwmpas - yn yr ysgol, gartref, ac yn ystod y teithiau cymudo dyddiol.

Llanelli, Gorllewin Cymru £ Chwe ffigur Cronfa Busnes Cymru

"Mae taclo materion amgylcheddol yn gyfrifoldeb rydyn ni i gyd yn ei rannu a, gyda chefnogaeth y Banc Datblygu, mae ein gwaith ni yn newid y ffordd rydyn ni'n deall ac yn mesur effaith aer gwenwynig ar lefel leol."

Jo Polson, Rheolwr Gyfarwyddwr, Vindico

SHEARWATER ECO LTD

Helpodd micro-fenthyciad gwerth £35,000 gan Fanc Datblygu Cymru'r fentergarwraig Paaristha 'Paris' Oomadath i lansio ei busnes cynnrych cartref moethus ecogyfeillgar.

Mae David hefyd yn aelod o'n pwylgor buddsoddi ac yn allanol mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol ar y Pobl Group ac mae'n Gadeirydd eu Pwyllgor Buddsoddi.

Carol Bell

Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Buddsoddi



Yn ddiwydiannwr ac ariannwr profiadol, cychwynnodd Carol ei gyrra yn y diwydiant olew a nwy cyn symud i faes bancio lle'r oedd ganddi swyddi uwch yn Credit Suisse First Boston, JP Morgan a Chase Manhattan Bank.

Carol yw Is-lywydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru a hi yw'r fenyw gyntaf i wasanaethu ar fwrrd Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Mae hi'n rhannu ei hamser rhwng gwasanaethu ar fyrrdau corfforaethol ac elusennol yng Nghymru ac yn rhwngwladol ac ymchwil academaidd.

Ers cwblhau ei doethuriaeth yn 2005, mae Carol wedi datblygu ystod o ddiddordebau busnes ac elusennol.

Yn ystod 2019, daeth yn sylfaenydd gyfarwyddwr Chapter Zero, rhwydwaith i alluogi cyfarwyddwyr anweithredol i ymgysylltu â risg hinsawdd a chyflawni targedau ar gyfer allyriadau sero carbon net.

Rhys Jones

Cyfarwyddwr anweithredol



Mae Rhys Jones yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol ar gyfer Banc Datblygu Cymru, ac fe ymunodd â'r bwrrd ym mis Mawrth 2020.

Rhys yw cyd-sylfaenydd a Phrif Swyddog Masnachol SportPursuit, manwerthwr ar-lein ar gyfer aelodau'n unig, sy'n canolbwytio ar chwaraeon ac mae ganddynt 8 miliwn o aelodau ledled y DU ac Ewrop.

Cyn dechrau SportPursuit yn 2011, bu Rhys yn gweithio yn OC&C Strategy Consultants a'r buddsodwr ecwiti twf yn yr Unol Daleithiau, Summit Partners.

Mae gan Rhys radd Meistr Peirianeg dosbarth 1af o Brifysgol Rhydychen.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Dylid darllen y canlynol ar y cyd â chyfrifoldebau'r archwilydd a nodir yn eu hadroddiad ar dudalen 116. Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am barato'i'r adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau cymwys.

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr barato'i'r datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr barato'i'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Cyfrifydd Rhngwladol (IASs) yn unol â gofynion Ddedf Cwmnïau 2006 a Safonau Adrodd Ariannol Rhngwladol (a adwaenir yn gryno fel yr IFRS) fel y'u cyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifydd Rhngwladol. Mae'r Cyfarwyddwyr hefyd wedi dewis parato'i datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn unol â Fframwaith Datgelu Gostyngedig Safon Adrodd Ariannol 101. O dan gyfraith cwmnïau rhaid i'r Cyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg wrth a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Cwmni ac o elw neu golled y Grŵp am y flwyddyn honno.

Wrth barato'i datganiadau ariannol y Grŵp, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- Ddewis a chymhwysol polisiau cyfrifyddu yn gywir;
- Cyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys polisiau cyfrifydu, mewn modd sy'n darparu gwybodaeth berthnasol, ddibynadwy, gymharol a dealladwy;
- Darparu datgeliadau ychwanegol pan nad yw cydymffurfio â'r gofynion penodol mewn IFRS yn ddigonol i alluogi defnyddwyr i ddeall effaith trafodion penodol, digwyddiadau ac amodau eraill ar sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol y Grŵp; a
- Gwneud asesiad o allu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol.

Wrth barato'i datganiadau ariannol y rhiant Gwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- Ddewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwysol y gysol;
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodol;
- Nodi a ddilynwyd Fframwaith Datgelu Llai Safon Adrodd Ariannol 101, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau berthnasol a ddatgelwyd ac a eglur yn y datganiadau ariannol; a
- Pharato'i'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Cwmni yn parhau mewn busnes.

Cyfrifoldebau cyfarwyddwyr mewn perthynas â chofnodion cyfrifyddu a rheolaeth fewnol

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y Grŵp a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Cwmni gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Grŵp a'r Cwmni ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra eraill.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefannau'r Grŵp. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu dros barato'i datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn unol â Fframwaith Datgelu Gostyngedig Safon Adrodd Ariannol 101. O dan gyfraith cwmnïau rhaid i'r Cyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg wrth a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Cwmni ac o elw neu golled y Grŵp am y flwyddyn honno.

Mae pob un o'r Cyfarwyddwyr, y mae eu henwau wedi'u rhestru ar dudalen 2 yr adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol, yn cadarnhau hyn hyd eithaf eu gwybodaeth:

- Mae'r datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol, yn rhoi golwg wrth a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol ac elw'r Grŵp a'r Cwmni;
- Mae'r Adroddiad Strategol a gynhwysir yn yr adroddiad blynnyddol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a safle'r Grŵp, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd sy'n ei wynebu; a
- Bod yr adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol, a gymerir yn eu cyfanwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i gyfranddalwyr y Cwmni asesu safle, perfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp a'r Cwmni.

Busnes gweithredol

Mae gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliaid rhesymol bod gan y Cwmni a'r Grŵp adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol hyd y gellir rhagweld. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi gwneud asesiad o fusnes gweithredol, gan ystyried perfformiad cyfredol a rhagolwg y Grŵp, a ystyriodd effaith pandemig Covid-19 a chanlyniadau parhaus Brexit, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael hyd at ddyddiad cyhoeddi'r Datganiadau ariannol hon.

Fel rhan o'r asesiad hwn, roedd y rhain yn ystyriaethau i'r Bwrdd:

- Hylifedd yr amrywiol gronfeydd y mae'r Grŵp yn eu rheoli er mwyn cefnogi cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid newydd trwy gyfnod o straen hirfaith;
- Y cyllid arall sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru a Gogledd Ddwyrain / Gorllewin Lloegr trwy'r sectorau cyhoeddus a phreifat;
- Trafodaethau cyllido parhaus gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer cronfeydd yn y dyfodol;
- Rhagweld modelau ariannol ar gyfer yr amrywiol gronfeydd y mae'r Grŵp yn eu rheoli a gofynion ad-dalu cyllidwyr y Grŵp;
- Y gwarged a ragwelir a'r cronfeydd wrth gefn cronediad ar gyfer ei fusnes gwasanaethau;
- Gwytnwch gweithredol swyddogaethau hanfodol y Grŵp gan gynnwys ei systemau TG a'r gallu i'r busnes weithredu fel arfer ar sail "gweithio gartref";
- Asesiad o sylfaen cyflenwyr y Grŵp, gan ystyried unrhyw bwyntiau methiant unigol a chanolbwytio ar gyflenwyr sy'n profi straen ariannol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried cynlluniau wrth gefn pe bai cyflenwyr yn cael eu hystyried mewn perygl;
- Yr amgylchedd rheoleiddio a chyfreithiol ac unrhyw risgiau ymddygiad posibl a allai godi.

O ganlyniad i'r asesiad hwn, mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn ei bod yn briodol mabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth barato'i'r Cwmni a Datganiadau Ariannol wedi'u Cadarnhau.

Datganiad hyfwedd tymor hir

Gweinidogion Cymru sy'n berchen ar Fanc Datblygu Cymru ccc ac mae ei barhad fel endid yn y pen draw yn ôl disgresiwn Llywodraeth Cymru sydd mewn grym. Mae'r Bwrdd yn tybio bod y Grŵp wedi cael cefnogaeth Llywodraeth Cymru ac y bydd yn parhau i wneud hynny ac y bydd ei drefniadau cyllido, sy'n cynrychioli 100% o gyllid ad-daladwy'r Grŵp, yn aros yn ei le.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi seilio eu hasesiad o hyfwedd ar gynllun corfforaethol tymor hir y Grŵp, sy'n cael ei ddiweddu a'i gymeradwyo'n flynyddol gan y Bwrdd. I fod yn fusnes hyfwy, dylai fod lefel uchel o hyder y gellir rheoli risgiau diddyledrwydd a hylifedd yn effeithiol, sy'n golygu bod yn rhaid i'r Grŵp ariannu ei fantolen yn llwyddiannus a dal cyfalaf a hylifedd digonol dros y cyfnod cyfan a gwmpesir gan ei ddatganiad hyfwedd.

Ystyrir mai cyfnod o dair blynnydd yw'r cyfnod hyfwedd mwyaf priodol gan mai hwn yw'r cyfnod hiraf y mae'r Bwrdd o'r farn y gall ffurfio barn resymol o'r amgylchedd gwleidyddol a macro-economaidd tebygol a'r ysgogwyr allweddol cysylltiedig mewn perfformiad busnes ac mae'n unol ag arferiad y farchnad.

Disgrifir sefyllfa hylifedd a chyfalaf y Grŵp yn Nodiadau 19 ac 20 yn y drefn honno. Mae'r Grŵp yn cynhyrchu cynllun corfforaethol 5 mlynedd sy'n ymgorffori rhagolwg ariannol pum mlynedd ar gyfer y busnes gwasanaethau. Nid yw'r rhagolwg hwn yn cynnwys unrhyw ragdybiaethau ynghylch cronfeydd newydd ac felly mae'r Grŵp yn defnyddio tair blyndedd yn ei ddiweddu'r flynyddol ac mae'n seiliedig ar incwm a threuliau ar gyfer cronfeydd presennol yn unig. Cynhaliwyd yr un broses asesu ag a nodwyd uchod ar gyfer busnes gweithredol, ond am y cyfnod hyfwedd tymor hir y Grŵp yn ymneud â'r tebygolwydd o barhau i ddarparu cronfeydd buddsoddi gan Lywodraeth Cymru, y risg o golli'r cronfeydd buddsoddi presennol yn ogystal â'r heriau gweithredol, megis gweithio gartref, a gafodd ei greu o ganlyniad i Covid-19. O ganlyniad i'r asesiad hwn, mae'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod gan y Grŵp ddigon o hylifedd i barhau i fuddsoddi am o leiaf tair blynnydd a bod ei fusnes gwasanaethau yn aros mewn gwarged cronus trwy gydol y cyfnod hwn.

Yn seiliedig ar y senarios hyn, mae gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliaid rhesymol y bydd y Grŵp yn parhau i weithredu ac yn cyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod o dair blynnydd a ystyriwyd.

Cyfrifoldeb corfforaethol a chymdeithasol

Gellir gweld manylion polisiau, gweithgareddau a nodau'r Grŵp yn y maes hwn yn ein datganiad A172 ar dudalen 57.

Rhoddion gwleidyddol

Ni wnaeth y Grŵp unrhyw roddion gwleidyddol yn ystod 2021 (2020: £dim).

Rhoddion a lletygarwch

Ni wnaed unrhyw roddion gan y Grŵp. Roedd gwerth cronus rhoddion a lletygarwch a dderbyniwyd gan staff yn llai na £20,000 yn ystod 2021 (2020 yn llai na £20,000).

Taliadau diswyddo

Roedd y taliadau diswyddo cronus a wnaed yn ystod y flwyddyn gan y Grŵp yn llai na £300,000 (2020 llai na £300,000).

Colledion benthiyiadau / colledion gwaredu yn sgil datgelu

Gwnaeth y Grŵp £2,890,192 o ddileadau benthiyiadau ac ecwiti a gafodd eu cymeradwyo gan y Grŵp o dan ei ddirprwyaethau yn ystod y flwyddyn (2020 cymeradwywyd £10,021,820 gan y Cyfranddaliwr dros ddirprwyaethau'r Grŵp).

Cydnabyddiaeth ariannol Cyfarwyddwyr

Datgelir manylion cydnabyddiaeth ariannol y Cyfarwyddwyr yn Nodyn 7 y datganiadau ariannol.

Indemniadau cyfarwyddwyr

Mae'r Cwmni wedi gwneud darpariaethau indemniad trydydd parti cymwys er budd holl Cyfarwyddwyr y Cwmni a'i is-gwmniâu. Roedd y rhain mewn grym yn ystod y flwyddyn ariannol ac yn parhau mewn grym ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

Datganiad o ddatgelu gwybodaeth i'r archwilydd

Cyn belled ag y mae pob Cyfarwyddwr yn ymwybodol ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, sef gwybodaeth sydd ei hangen ar yr archwilydd mewn cysylltiad â pharatoi'r adroddiad hwn, nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohono. Mae pob un o'r Cyfarwyddwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd fel Cyfarwyddwyr er mwyn gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac wedi sefydlu bod yr archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Archwiliwr

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 29 Medi 2020 pasiwyd penderfyniad i ailbenodi Deloitte fel archwilydd am y flwyddyn i ddod. Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 23 Medi 2021 cynigir y dylid ailbenodi Deloitte fel archwilydd hyd nes y daw proses gaffael gwasanaethau archwilio allanol i ben yn ystod hydref 2021.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ac fe'i llofnodwyd ar ran y Bwrdd.

Judi Oates

Judi Oates

Ysgrifennydd y Cwmni
22 Medi 2021

DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae cyfansoddiad Banc Datblygu Cymru ccc yn cynnwys ei Erthyglau Cymdeithasu a Dogfen Fframwaith rhwng Banc Datblygu Cymru ccc a Gweinidogion Cymru.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cydnabod pwysigrwydd llywodraethu corfforaethol cadarn. Yn ystod 20/21, gofynnodd y Bwrdd yn benodol am a derbyniodd adroddiad manwl gan y Cyfarwyddwr Risg, Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth yn ymwnus â graddau cydymffurfiad Banc Datblygu Cymru ccc â darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018. Canfuwyd bod y Grŵp yn cydymffurfio â phob agwedd ar y cod sy'n berthnasol iddo. Nodwyd hefyd bod y Grŵp wedi cydymffurfio â mwyafrif o'r gofynion llawn sy'n weddill yng Nghod 2018 sy'n berthnasol i endidau mawr a / neu restredig. Lle nad oedd cydymffurfiad, roedd y Cyfarwyddwyr o'r farn ei bod yn briodol naill ai oherwydd bod amgylchiadau'r Grŵp yn wahanol i endid mawr neu restredig neu y byddai angen amser a chostau sylweddol er mwyn cydymffurfio.

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ar gael gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn darparu arweiniad ar ystod o faterion i sicrhau arfer effeithiol gan y Bwrdd.

Ar wahân i'r rhai a nodir yn yr adroddiad blynnyddol hwn, nid yw'r Bwrdd yn ymwybodol o unrhyw wyriadau oddi wrth agweddau berthnasol y Cod yn y cyfnod er 1 Ebrill 2020 i'r graddau y mae'n berthnasol i Fanc Datblygu Cymru ccc.

Ar gyfer Banc Datblygu Cymru, mae llywodraethu corfforaethol da yn ymwnus â sicrhau bod y Grŵp yn cyd-fynd ag amcanion ei gyfrannodoliwr ac y bydd gweithredu'r strategaeth a fabwysiadwyd yn sicrhau bod y Grŵp yn gynaliadwy ac yn gallu ail-fuddsoddi'r enillion o'i gronfeydd, sydd ochr yn ochr â chronfeydd a buddsoddwyr newydd eraill, yn galluogi'r Grwp i barhau i fuddsoddi yn y tymor hir.

Rôl a chyfrifoldeb Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni

Arweinir Banc Datblygu Cymru ccc gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr sydd, gyda'i gilydd, yn gyfrifol am gynaliadwyedd tymor hir y Grŵp ac, mewn ymgynghoriad â Gweinidogion Cymru, am gylch gorchwyl a strategaeth y Grŵp.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys naw Cyfarwyddwr gan gynnwys saith sy'n gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol.

Mae gan ein Bwrdd a'n Pwyllgorau'r cydbwyssedd priodol o sgiliau, profiad ac annibyniaeth i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'r Bwrdd o'r farn bod y Cadeirydd yn annibynnol pan y'i penodwyd a bod yr holl gyfarwyddwyr anweithredol yn annibynnol at ddibenion y Cod. Mae gan Weinidogion Cymru'r hawl i benodi Sylwedd i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd fel eu cynrychiolydd.

Adolygodd y Bwrdd yr amserlen o faterion a neilltuwyd ar gyfer y Bwrdd ym mis Chwefror 2021 fel rhan o ymarfer diweddar ar gyfer y ddogfen fframwaith gyda Gweinidogion Cymru. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu eto yn ddiweddarach yn 2021, ar ôl Etholiad y Senedd ar 6 Mai 2021, pan dderbynir y Llythyr Cylch Gorchwyl gan Lywodraeth Cymru. Mae'r materion a neilltuwyd ar gyfer y Bwrdd yn cynnwys strategaeth, strwythur a chyfalaf y cwmni, adroddiadau a rheolaethau ariannol, rheoli risg a rheolaethau mewnol, aelodaeth y Bwrdd a phenodiadau eraill, cydnabyddiaeth ariannol, dirprwyo awdurdod, llywodraethu corfforaethol, dileu dyledion drwg, penodi cynghorwyr proffesiynol, ymgylchiadau ac yswiriant.

Mae ein cyfarwyddwyr anweithredol yn craffu ar berfformiad y rheolwyr mewn cyfarfod lle cytunwyd ar yr amcanion. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am osod lefelau priodol o gydnabyddiaeth i gyfarwyddwyr gweithredol a staff mewn ymgynghoriad â Gweinidogion Cymru. Eglurir hyn ymhellach yn yr ar y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ar dudalen 102.

Rôl a chyfrifoldeb Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni (parhad)

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am arwain y Bwrdd a'i drafodaethau ac am annog trafodaeth a her agored. Mae'r Prif Weithredwr yn arwain yr Uwch Dîm Rheoli wrth redeg y busnes o ddydd i ddydd a gweithredu strategaeth.

Fel sefydliad a ariennir gan gyllid cyhoeddus mae'n ofynnol i'r Banc gydymffurfio â'r egwyddorion a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru: llyw.cymru/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru.

Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus.

Yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ("UCA") yw Huw Morgan. Cyfrifoldebau'r UCA yw gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd, gweithredu fel cyfryngwr i Gyfarwyddwyr eraill yn ôl yr angen a chwrrd â Chyfarwyddwyr. Anweithredol eraill i adolygu perfformiad y Cadeirydd.

Cynhalwyd yr ymarfer i werthuso perfformiad y Cadeirydd trwy gyfrwng holiadur. Trafodwyd y canlyniadau ymhliith y cyfarwyddwyr anweithredol dan arweiniad y UCA a'u cyfleo i'r Cadeirydd.

Penodi a diswyddo Cyfarwyddwyr y Cwmni

Mae'r Ddogfen Fframwaith yn darparu bod yn rhaid hysbysu penodiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill o'r Bwrdd i Gyfarwyddwr Cyffredinol adran noddi'r Grŵp, sef yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol ar hyn o bryd.

Yn ystod y cyfnod fe ail benodwyd Carol Bell am dymor o dair blynnydd gan ddechrau ym mis Medi 2020 ar y ddealltwriaeth mai hwn fydd y tymor olaf.

Gellir gweld bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd yn: developmentbank.wales/cy/amdanom-ni/pobl-thimau.

Mae pob penodiad i'r Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau Gweithredol yn seiliedig ar amrywiaeth y cyfraniad, y profiad o'r sgiliau gofynnol, waeth beth fo'u rhyw, hil neu unrhyw feini prawf eraill.

Ethol ac ailethol Cyfarwyddwr Blynnyddol

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2020, ail-etholwyd Carol Bell yn unol â gofynion yr Erthyglau Cymdeithas.

Gwybodaeth am y Bwrdd

Rhoddir diweddarriadau i bob Cyfarwyddwr ar ddatblygiadau llywodraethu corfforaethol, newidiadau deddfwriaethol a rheoliadol, a gwybodaeth berthnasol am y diwydiant a thechnegol. Mae'r Bwrdd yn cael y wybodaeth briodol mewn modd amserol i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau ac mae unrhyw wybodaeth bellach ar gael yn rhwydd i'r holl Gyfarwyddwyr. Mae'r Bwrdd yn derbyn papurau bwrdd a gwybodaeth yn electronig i gynyddu effeithlonrwydd, cyfrinachedd a chynaliadwyedd.

Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu tri phwyllgor Bwrdd i sicrhau penderfyniadau cadarn ac effeithiol o fewn strwythur y Grŵp, yn benodol pwyllgorau Archwilio a Risg, Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo cylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor.

ADRODDIAD PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

Y Pwyllgor Archwilio a Risg sydd â'r prif gyfrifoldeb am sicrhau cywirdeb datganiadau ariannol y Grŵp ac effeithiolrwydd ein rheolaeth risg a'n rheolaethau mewnol. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Cyfranddaliwr mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a threfniadau rheoli.

Cyfansoddiad aelodaeth, sgiliau a chyfarfodydd

Mae Pwyllgor Archwilio a Risg Grŵp Banc Datblygu Cymru yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol:

- Iraj Amiri (Cadeirydd)
- Margaret Llewellyn OBE
- Huw Morgan

Mae'r Bwrdd o'r farn mai'r Cadeirydd yw arbenigwr ariannol y Pwyllgor a bod ganddo brofiad diweddar a pherthnasol yn y sector gwasanaethau ariannol sy'n angenheidol ar gyfer y rôl. Mae'n gyfrifydd â chymwysterau proffesiynol.

Mae'r Bwrdd hefyd o'r farn bod aelodau eraill y Pwyllgor yn gymwys mewn materion ariannol a bod ganddynt wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i'r sectorau y mae Grŵp Banc Datblygu Cymru yn gweithredu yn yndydnt. Gellir gweld bywgraffiadau aelodau'r Pwyllgor ar dudalennau 88-91 sy'n rhoi mwy o fanylion am eu sgiliau a'u cefndir.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bum gwaith yn ystod 20/21. Fe'i mynychi gan Brif Weithredwr Banc Datblygu Cymru ccc, y Prif Swyddog Ariannol a'r Cyfarwyddwr Risg, Cydymffurfiaeth a Chyfreithiol, yngyd â'r archwiliwr mewnol ac allanol, ac arsylwr o Lywodraeth Cymru. Mae gan yr archwiliwr mewnol ac allanol fynediad uniongyrchol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac maent yn cwrdd â'r Pwyllgor heb i'r rheolwyr fod yn bresennol o leiaf unwaith y flwyddyn.

Pwrpas a chyfrifoldebau'r pwyllgor

Pwrpas y Pwyllgor yw monitro ac adolygu trefniadau adrodd ariannol y Grŵp, effeithiolrwydd ei fframwaith rheolaethau mewnol a rheoli risg, y prosesau archwilio mewnol ac allanol a pholisiau cywirdeb a chwythu'r chwiban y Grŵp. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn gweithredu fel pwyt cyswllt os yw'r pryder chwythu'r chwiban yn ymneud â'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'r Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd ar ei weithgareddau ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd, y mae pob un ohonynt wedi'i dderbyn yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor yn darparu adroddiad blynnyddol i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar ei waith ac yn cadarnhau digonolrwydd y trefniadau archwilio a'r sicrwydd a roddir gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a threfniadau rheoli.

Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi'u nodi isod:

Adroddiad / Datganiad	Pwrpas
Adrodd ariannol	<ul style="list-style-type: none"> Monitro uniondeb y datganiadau ariannol ac adolygu polisiau cyfrifyddu critigol. Asesu a herio, lle bo angen, amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu gan reolwyr wrth barato'i'r datganiadau ariannol. Ystyried a herio'r busnes gweithredol a'r asesiad hyfywedd tymor hir a baratowyd gan y rheolwyr. Adolygu a monitro unrhyw addasiadau sylwedol sy'n codi o'r archwiliad allanol. Adolygu'r adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol ac adroddiadau ariannol eraill Cyngori'r Bwrdd yngylch a yw'n deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, o'i gymryd yn ei gyfanwydd.
Archwiliad allanol	<ul style="list-style-type: none"> Goruchwylion berthynas gydal' archwilydd allanol, gan gynnwys cydnabyddiaeth, telerau ymgysylltu ac ystyried effeithiolrwydd, annibyniaeth a gwrrhrychedd. Cytuno ar y polisi ar gyfer darparu gwasanaethau heblaw gwasanaethau archwilio. Herio a chytuno ar y cynllun archwilio allanol. Gwneud argymhellion i'r Bwrdd yngylch ailbenodi a diswyddo'r archwilydd allanol. Adolygu canfyddiadau archwilio ac ystyried ymatebion rheolwyr i unrhyw ganfyddiad neu argymhellion.
Rheolaethau mewnol a risg	<ul style="list-style-type: none"> Goruchwylion trefniadau rheolwyr ar gyfer sicrhau digonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, adrodd ar reolaethau ariannol a rheoli risg a dull gweithredu rheolaeth tuag at mynd i'r afael â gwendidau rheoli. Adolygu a chymeradwyo'r rheolaeth fewnol, rheoli risg a datganiadau sicrwydd eraill yn yr adroddiad blynnyddol.
Cywirdeb gan gynnwys chwythu'r chwiban	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu'r trefniadau chwythu'r chwiban a derbyn adroddiadau ar achosion o chwythu'r chwiban. Adolygu'r gofrestr a'r trefniadau Rhoddion a Lletygarwch
Archwilio mewnol	<ul style="list-style-type: none"> Cymeradwyo'r drefn o ddethol a dewis a phenodi archwiliwyr mewnol. Cymeradwyo'r cynllun gwaith blynnyddol a derbyn adroddiadau ar feysydd gwaith unigol. Monitro ymatebion rheolwyr i ganfyddiadau ac argymhellion. Monitro effeithiolrwydd y swyddogaeth archwilio fewnol.
Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> Mae arsylwr o Lywodraeth Cymru yn mynchu pob cyfarfod ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am bob agwedd ar waith y Pwyllgor. Cyflwynir adroddiad blynnyddol i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru sy'n nodi manylion gwaith y Pwyllgor ac yn rhoi sicrwydd yngylch digonolrwydd y trefniadau archwilio a hefyd ar y sicrwydd a ddarperir gan y Prif Weithredwr a'r uwch dîm rheoli mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a rheoli.

Materion adrodd arwyddocaol am y Datganiad Ariannol

Wrth gyflawni ei rôl o fonitro datganiadau ariannol y Grŵp, adolygodd y Pwyllgor a oedd polisiau cyfrifyddu addas wedi'u mabwysiadu ac a oedd y rheolwyr wedi gwneud amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu priodol. Gan ystyried arswylwadau'r archwilydd allanol, ystyriodd y Pwyllgor nifer o faterion arwyddocaol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021, a nodir isod. Mae'r mwyafir o'r materion hyn yn gylchol ac felly'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn barhaus ac mae effaith pandemig Covid-19 yn ffactor arall i'w ystyried ar gyfer pob mater. Wedi i reolwyr ymchwilio i'r driniaeth gyfrifyddu briodol ar gyfer ei fenthyciadau CBBCC a chyllid Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hynny, nododd y rheolwyr fod angen triniaeth debyg ar gyfer pob benthyriad sero'r cant gan Llywodraeth Cymru. Mae'r ail ddatganiad hwn yn fater arwyddocaol newydd a fydd yn effeithio ar symiau'r flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol yn y datganiadau ariannol. Gweler y sylwadau isod am fanylion.

Prisio portffolio benthyciadau Cymorth i Brynu - Cymru

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn herio'r rhagdybiaethau allweddol a gymhwyswyd gan reolwyr wrth gyfrifo gwerth teg y portffolio benthyciadau Cymorth i Brynu - Cymru. Roedd hyn yn cynnwys rhagdybiaethau tueddiadau mynegai prisiau tai ("MPT") yn y dyfodol, yn dilyn effaith Covid-19 ar ragolygon MPT, y cyfnod dal a'r ffactor disgownt a ddefnyddir. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y gwerth teg yn briodol.

Darpariaethau ar gyfer amharu'r llyfr benthyciadau (Darpariaeth colli credyd disgwyliedig) o dan IFRS 9

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn herio'r fethodoleg ddarparu a gymhwyswyd gan reolwyr gan gynnwys canlyniadau colledion benthyciadau ystadegol i gefnogi'r ddarpariaeth amhariad ac roedd yn fodlon bod y dulliau amcangyfrif yn briodol.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn herio'r ddarpariaeth amhariad sydd wedi'i chydhabod yn y datganiadau ariannol a'r sail ar gyfer cyfrifo'r colledion credyd disgwyliedig o dan IFRS 9. Roedd hyn yn cynnwys y camau sydd a wneolo rhagdybiaethau y dull ar gyfer penu cynnydd sylwedol mewn risg credyd a chymhwyso dyfarniad rheolwyr mewn perthynas â darpariaethau penodol. Adolygodd y Pwyllgor hefyd briodoldeb data marchnad sy'n edrych i'r dyfodol a ddefnyddir i gyfrifo tebygolrwydd diofyn yn ogystal â thueddiadau hanesyddol a ddefnyddir i gyfrifo'r amlygiad a'r rhagosodiad a'r golled a roddir yn ddiofyn. Ystyriwyd sensitifrwydd cyfrifiad y ddarpariaeth i ragdybiaethau amrywiol, gan gynnwys effaith senarios economaidd amgen sy'n edrych i'r dyfodol.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon â digonolrwydd y darpariaethau a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol a bod y rhagdybiaethau a'r dyfarniadau a gymhwyswyd gan y Rheolwyr yn briodol. Nodir y datgeliadau sy'n ymwnaed â'r ddarpariaeth amhariad yn Nodiadau 2,4,ac 14 i'r datganiadau ariannol.

Benthyciadau llog sero'r cant Llywodraeth Cymru

Mae £896m (2020 £484m) o gyllid a dderbyniodd Banc Datblygu Cymru gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn busnesau yng Nghymru wedi bod ar ffurf benthyciadau llog sero'r cant gyda tharged ad-dalu rhwng 47.5% a 100% o'r benthyciad gwereddol a dderbyniwyd.

Yn hanesyddol, mae'r benthyciadau hyn wedi'u cydnabod ar werth cychwynnol y trafodiad heb unrhyw dâl llog wedi'i gofnodi trwy'r datganiad incwm. Roedd nodyn datgelu yn y datganiadau ariannol a oedd yn dangos gwerth cyfredol y benthyciadau pe byddent wedi cael eu disgowntio ar gyfradd llog ar y farchnad. Wrth ystyried y driniaeth gyfrifyddu sy'n ofynnol ar gyfer benthyciadau CBBCC (gweler isod), ailystyriodd Banc Datblygu Cymru ei ddull o ymdrin a'r holl fenthyciadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a phenderfynodd gymhwysio triniaeth gyfrifyddu debyg ar gyfer y rhain. Trafodir y driniaeth a'r effaith yn y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol yn llawn yn Nodyn 25.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn herio'r dyfarniadau allweddol a gymhwyswyd gan reolwyr wrth bennu'r driniaeth gyfrifyddu gywir a'r rhagdybiaethau wrth gyfrifo'r gwerth teg cychwynnol a'r taliadau llog tybiannol, a oedd yn cynnwys adolygu cyfraddau hanesyddol a chyfredol y farchnad ar gyfer benthyciadau o'r fath a gyhoeddwyd gan lywodraeth y DU. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y driniaeth gyfrifyddu wedi'i diweddu fel y nodwyd yn Nodyn 25 yn briodol. Nododd y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod darllenyydd y cyfrifon yn deall effaith y newid i'r driniaeth flaenorol a'r driniaeth gyfredol yn y Datganiad Incwm wedi'i Gadarnhau a'r Fantolen ac adroddir ar y dadansoddiad hwn yn natganiad y PSA ar dudalen 71.

Cynllun Benthyciad Busnes Covid-19 Cymru ("CBBCC")

Ym mis Ebrill 2020, mewn ymateb i gyfnod clo pandemig Covid-19 yn y DU, lansiodd Banc Datblygu Cymru gynnllun benthyciad gostyngedig (o dan y fframwaith Cymorth Gwladwriaethol dros dro) i fusnesau yng Nghymru bontio'r bwlc cyllido tra bod y Cynllun Benthyciad Ymyrryd Ar Draws Busnes Covid-19 mwy ("CBYB") a'r Cynllun Benthyciad Bownsio Nôl ("CBBN") yn cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth y DU a benthycwyr sector preifat.

Derbyniwyd cyllid grant tybiannol gan y Banc Datblygu fel rhan o'r cyllid o £92m ar gyfer CBBC a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a gafwyd gan y Banc Datblygu ac a basiwyd ymlaen wedyn i'w gwsmeriaid. Gweler Nodyn 2 - Incwm / cost Grant Arall am fanylion.

Adolygodd y Pwyllgor ddyfarniad y rheolwyr yngylch y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer y benthyciadau CBBCC a gyhoeddwyd a benthyciad llog sero'r cant £92m LIC yn ogystal â'r rhagdybiaethau yngylch eu gwerthoedd teg cychwynnol a chyfraddau llog y farchnad. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y driniaeth gyfrifyddu a chyfradd llog y farchnad a gymhwysir yn briodol.

Busnes gweithredol

Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio a Risg agwedd y Rheolwyr tuag at, a chasgliadau, asesiad o allu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol.

Mae'r cyfnod asesu busnes gweithredol yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 30 Medi 2022, 12 mis ar ôl llofnodi'r adroddiad Blynnyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a daeth i ben 31 Mawrth 2021. Ystyriodd yr asesiad sefyllfa gyfalaif gyfredol y Grŵp a gofynion hylifedd sy'n cwmpasu'r cyfnod asesu busnes gweithredol, gan gynnwys ystyried effaith pandemig Covid-19 a Brexit. Mae'r ystyriaethau manwl a gymerwyd gan y Bwrdd wrth lunio ei asesiad busnes gweithredol wedi'u nodi ar dudalen 93 yn adroddiad y Cyfarwyddwyr. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod digon o arian buddsoddi ar gael i ateb y rhagolygon am y galw am fuddsoddiadau hyd at 30 Medi 2022 ac nad oes unrhyw broblemau perfformiad gydag unrhyw un o gontactau rheoli cronfa'r Grŵp. Roedd y Pwyllgor hefyd yn fodlon y byddai digon o warged yn cael ei gynhyrchu gan y busnes gwasanaethau a chyfalaif gweithio cysylltiedig i dalu'r holl gostau gweithredu hyd at 30 Medi 2022. Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio a Risg y dylai'r Bwrdd gefnogi'r casgliad ei bod yn parhau i fod yn briodol i barato'i'r ariannol datganiadau ar sail busnes gweithredol.

Rheoleidd-dra

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod rheolaethau priodol ar waith i sicrhau bod gwariant y Grŵp yn cydymffurfio â gofynion y Trefniant Rheoli fel y'u nodwyd gan Weinidogion Cymru.

Cydnabod refeniw

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod cydnabod refeniw mewn perthynas â gwireddu ecwiti yn briodol a'i fod yn cael ei ategu gan y ddogfennaeth angenrheidiol.

Rheolau cyllido Ewropeaidd

Ariennir yr ail gronfa fwyaf a weithredir gan y Grŵp yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac mae ganddi feini prawf penodol ar gyfer cymhwysedd buddsoddiadau. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd gan reolwyr bod yr holl fuddsoddiadau a wneir yn cwrdd â'r meinu prawf. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod rheolaethau priodol ar waith i sicrhau bod arian yn cael ei fuddsoddi mewn busnesau cymwys.

Prisio buddsoddiadau ecwiti

Mae IFRS 9 yn ei gwneud yn ofynnol i bob buddsoddiad ecwiti gael ei ddal ar werth teg yn unol ag IFRS 13. Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn herio sut roedd rheolwyr wedi defnyddio'r Canllawiau Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter (CEPCM) Rhwngwladol ac yn fodlon eu bod wedi'u cymhwysos i'w briodol. Nodir y datgeliadau sy'n ymwnaed â'r addasiad gwerth teg yn Nodiadau 13 a 19 i'r datganiadau ariannol.

Buddsoddiad yng Nghronfa Buddsoddi Gwyddor Bywyd Cymru ("CBGBC")

Adolygodd y Pwyllgor y broses o gyflwyno gwerth teg CBGBC o'i safle archwiliadig ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Rhagfyr 2020 i 31 Mawrth 2021. Adolygodd a heriodd y Pwyllgor sut roedd y Rheolwyr wedi defnyddio'r Canllawiau Rhwngwladol ar gyfer Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter (CRhEPCM) ac roedd yn fodlon eu bod wedi'u cymhwysos i'w briodol.

Perfformiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae perfformiad y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael ei adolygu bob blwyddyn trwy holiadur a anfonir at yr holl Gyfarwyddwyr ac uwch reolwyr. Adolygir y canlyniadau a lle bo angen cytunir ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod y Pwyllgor wedi bod yn effeithiol yn ystod y flwyddyn.

Adolygiad o'r adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 21 Gorffennaf 2021 i gynnal adolygiad manwl o ddrafft o'r adroddiad blynnyddol a datganiadau ariannol, cyn i'r drafft terfynol gael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 23 Gorffennaf 2021. Yn dilyn y trafodaethau hyn, cynghorodd y Pwyllgor y Bwrdd bod yr adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol, a gymerir yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ond nododd fod rhywfaint o waith archwilio yn weddill. Cytunodd y Bwrdd i ddirprwyo i is-bwyllgor (yn cynnwys Cadeirydd y Bwrdd, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, y PW a'r PSA) gymeradwyaeth derfynol yr adroddiad blynnyddol a datganiadau ariannol ar y ddarpariaeth nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol iddynt cylchredwyd y drafft i'r Bwrdd. Yn dilyn hynny, cyfarfu'r is-bwyllgor hwn ar 22 Medi 2021 a chymeradwyo fersiwn derfynol yr adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol ac ar ran y Bwrdd.

Archwiliad Allanol

Mae gan yr archwilydd allanol a'r Grŵp ill dau gamau diogelu i sicrhau annibyniaeth a gwrttrychedd yr archwiliad allanol. Mae gan y Grŵp bolisi i sicrhau bod y gwasanaethau heblaw archwiliadau a ddarperir gan yr archwilywr allanol yn briodol. Mae'r polisi'n nodi natur y gwaith y gall yr archwilydd allanol ei wneud gydag unrhyw aseiniadau sydd â ffioedd uwchlawn terfyn diffiniedig sy'n gofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae'r cyfanswm a dalwyd i'r archwilydd allanol yn 2021 wedi'i nodi yn Nodyn 6 i'r datganiadau ariannol.

Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn heb i'r rheolwyr fod yn bresennol, gyda'r archwilydd allanol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal asesiad ffurfiol o berfformiad yr archwilywr allanol bob blwyddyn. Yn 2021 ni chodwyd unrhyw faterion arwyddocaol ac ystyriwyd bod eu perfformiad yn fodhaol.

Mae gan y Grŵp bolisi o dendro'r archwiliad allanol bob pum mlynedd. Cynhalwyd ymarfer caffael manwl yn ystod blwyddyn ariannol 2016, ac fe ail benodwyd y perigloriaid, Deloitte. O ganlyniad i bandemig Covid-19, estynnwyd y flwyddyn tendro archwilio allanol un flwyddyn. Bydd ymarfer caffael newydd yn cael ei gynnal yn ystod Hydref 2021.

Archwiliad mewnol

Yn ystod 2018, yn dilyn ymarfer caffael llwyddiannus, penodwyd PricewaterhouseCoopers fel ein harchwilwyr mewnol annibynol i gynnal ein swyddogaeth archwilio fewnol. Mae'r penodiad tan ddiwedd Mehefin 2022, gydag opsiwn i dorri ar y trydydd pen-blwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu'r Cynllun Archwilio Mewnol ac yn sicrhau bod gan yr archwilwyr fynediad priodol at wybodaeth i'w galluogi i gyflawni eu gweithgareddau archwilio yn effeithiol, ac yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol. Adolygir yr holl ganfyddiadau yn brydlon a chaiff ymateb y rheolwyr i'r canfyddiadau a'r argymhellion ei fonitro'n rheolaidd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod yn breifat o leiaf unwaith y flwyddyn gyda'r archwilwyr mewnol heb i'r rheolwyr fod yn bresennol i drafod eu cylch gwaith ac unrhyw faterion sy'n codi o'r adolygiadau archwilio mewnol a gynhelir.

Yn eu hadroddiad blynnyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 21 Gorffennaf 2021 rhoddodd ein 'Archwilwyr Mewnol' farn "Yn gyffredinol fodhaol gyda rhoi gwellianau yn ofynnol" ynghylch ein trefniadau llywodraethu, rheolaeth risg a rheoli, gan nodi:

"Rydym yn fodlon bod digon o waith archwilio mewnol wedi'i wneud i ganiatáu i farn gael ei rhoi ynghyrch digonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethu, rheolaeth risg a rheoli."

Wrth roi'r farn hon, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt. Y mwyaf y gall y gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu yw sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau mawr yn y system reoli fewnol.

Yn seiliedig ar yr archwaeth risg a'r cynllun archwilio mewnol y cytunwyd â chi, rydym wedi cwblhau ein rhaglen waith a chredwn fod prosesau llywodraethu, rheolaeth risg a rheoli digonol ac effeithiol i alluogi rheoli'r risgiau cysylltiedig, ac i gyflawni'r amcanion."

Cymeradwywyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.



Iraj Amiri

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

Mae ein Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn mabwysiadu dull gweithredu teg a chyfrifol o wobrwyd ein gweithwyr, gan sicrhau bod y cysylltiad rhwng tâl a pherfformiad yn annog yr ymddygiadau cywir, ac yn ein galluogi i ddenu a chadw'r bobl iawn.

Rydym yn ymdrechu i fod yn agored, yn gynhwysol ac yn croesawu amrywiaeth, gan greu diwylliant lle mae gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn ddiogel. Ein huchelgais yw cael gweithlu sy'n wirioneddol gynrychioliadol o'r bobl yn ein rhanbarthau.

Rydym yn cydnabod bod llawer mwy i weithio na'r cyflog yn unig, a dyna pam rydym yn cynnig amgylchedd gweithle ac ystod gynhwysfawr o fuddion sydd â'r nod o ddarparu lle gwerth chweil a difyr i weithio, datblygu a thyfu.

Aelodaeth pwyllgorau a phresenoldeb

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y Grŵp yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol:

Cadeirydd y Pwyllgor: Margaret Llewellyn OBE
Aelodaeth: Huw Morgan a Rhys Jones

Penodir y Pwyllgor gan Gadeirydd y Bwrdd a rhaid iddo gynnwys o leiaf ddaug ymddygiadaeth ariannol yn cael ei anweithredol.

Mae ein Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Strategaeth ac AD fel arfer yn bresennol ac eithrio pan fydd eu cydnabyddiaeth ariannol eu hunain yn cael ei draffod.

Rhoddir adborth i'r Bwrdd yn dilyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

Recriwtio ac iawndal

Er gwaethaf effeithiau'r pandemig, er mwyn cwrdd â'r llwyth gwaith cynyddol, rydym wedi reciriwtio 24 o ddechreuwyr newydd ac wedi ymgymryd â 25 o symudiadau a dyrchafiadau mewnl. Rydym wedi addasu ein prosesau cynwys ar-fwrdd i ddarparu ar gyfer reciriwtio gweithwyr sy'n gweithio amser llawn o'u cartref i ddechrau. Yr amser cyfartalog ar gyfer reciriwtio'n llwyddiannus yw 2.8 mis. Roedd dros 23% o gyfanswm y rhai a reciriwtiwyd yng Nghymru ar gyfer ein Pencadlys yn Wrecsam, gyda 42 o weithwyr wedi'u lleoli yno ar hyn o bryd, rydym ar y trywydd iawn i gwrrdd â strategaeth Traws Cymru i gyrraedd 51 erbyn 2021.

Mae ein cyflog a'n buddion yn cael eu meincnodi'n barhaus gyda chyfoedion yn y sector breifat, bydd blwyddyn olaf gwerthusiadau swyddi yn cael ei chynnal gan Mercer, gyda 34 rôl yn cael eu hadolygu. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cwblhau, bydd pob swydd yn y Banc Datblygu wedi'i gwerthuso dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn sicrhau bod y cyflog ar draws Grŵp BDC yn dryloyw ac yn deg ac yn adlewyrchu'r diwydiant yr ydym yn gweithredu ynnyddo.

Er mwyn sicrhau cyflog teg, rydym wedi cynyddu'r band cyflog isaf i isafswm o £20,000 yn unol â Llywodraeth Cymru.

Cytunwyd ar gynllun cymhelliant newydd 'y Cynllun Cymhelliant Gohiriedig' (CCG) gyda Llywodraeth Cymru ar 7fed Awst 2019 a'i lansio ar gyfer y flwyddyn ariannol 20/21. Nod y CCG yw cymell llwyddiant tymor hwy'r portffolio buddsoddi a pherfformiad parhaus y Banc yn erbyn ei nodau strategol.

Mae Cyfarwyddwr Gweithredol a rhai cydweithwyr uwch eraill yn gymwys i gymryd rhan yn y CCG. Mae'r CCG yn gweithredu ar ffurf cyfres gylchol o dair blynedd. Gosodir amcanion ar ddechrau pob cylch ac adolygir cynydd ym flynyddol gan y Pwyllgor. Mae amcanion wedi'u gosod mewn dau categori: corfforaethol a phersonol. Mae'r pwysiad rhwng y categoriau hyn yn cael ei yrру gan rôl yr unigolyn yn ystod boblwyddyn yn y cylch 3 blynedd a gellir ei amrywio dros amser yn ôl disgrifiwn y Pwyllgor, gan ystyried gofynion y busnes, unrhyw ffactorau allanol perthnasol. Mae targedau corfforaethol yn ymneud â chyfnodau treigl tair blynedd ac yn gyffredinol byddant yn unol ag amcanion cynllun busnes y Banc. Telir dyfarniadau 10% ar ôl blwyddyn 1, 10% ar ôl blwyddyn 2 ac 80% ar ôl blwyddyn 3. Gwneir y taliad cyntaf am y cynllun i weithwyr ym mis Rhagfyr 2021.

Mae cap caeth ar uchafswm y cymhelliant (blynnyddol a'r CCG) y gall unrhyw unigolyn ei dderbyn: ni all cyfanswm y taliau a pherfformiad dros gyfnod o 3 blynedd fod yn fwy na 100% o gyflog cyfartalog blynnyddol y tair blynedd diwethaf. Bydd cost gyffredinol y cynllun wedi'i chynnwys yn y cylch gwaith cyflog y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Os daw cyflogaeth cyfranogwr o fewn y Grŵp i ben cyn talu'r wobr, mae'r cyfre i ddyfarnu fel arfer yn cael ei fforffedu ac yn dod i ben yn llawn, er bod eithriadu y gall y Pwyllgor gytuno arnynt ar gyfer cyfranogwyr sydd wedi'u categoriadd fel 'ymadawyr da'. Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol sydd gan y disgrifiwn eithaf dros dalu unrhyw wobrwyon, gan ystyried ffactorau y mae'n eu hystyried yn berthnasol gan gynnwys perfformiad cyffredinol y Banc.

Pwrpas a chyfrifoldebau'r pwylgor

Ymhlieth y cyfrifoldebau allweddol mae:

- Llunio a chymeradwyo'r strategaeth a'r polisi ar gyfer tâl Cyfarwyddwyr y Grŵp, y tîm Rheoli Gweithredol a staff yn unol â'r Ddogfen Fframwaith
- Sicrhau bod aelodau'r tîm Rheoli Gweithredol yn cael cymhellion priodol i annog perfformiad gwell d'u gwobrwyd am gyfraniadau unigol i lwyddiant y sefydliad.
- Cymeradwyo strwythur y cynllun cymhelliant blynnyddol ac unrhyw daliadau o dan y cynllun hwn.
- Goruchwyliau cynlluniau pensiwn a gynigir gan y sefydliad.
- Goruchwyliau newidiadau mawr yn strwythurau buddion gweithwyr.

Rydym yn eiddo i weinidogion Cymru fel is-gwmni dan berchnogaeth Iwyr, yn gweithredu yn y sector gwasanaethau ariannol, rydym yn cydnabod bod ein gweithwyr yn hanfodol i'n gweithrediadau a heb eu gwybodaeth a'u harbenigedd ni allem gyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus.

Hyfforddiant

Rydym am i'n gweithwyr gyflawni eu gwir botensial ac mae rhan fawr o'n cynnig yn ymrwymiad i ddatblygu sgiliau a gyrfaoed pawb sy'n gweithio gyda ni. Mae gennym amgylchedd o ddysgu parhaus. Rydym yn darparu hyfforddiant mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys; hyfforddiant yn y gwaith; wyneb i wyneb; ar-lein; hyfforddi a mentor; cyrsiau addysg bellach ac uwch a thrwy gyfrwng diweddaradau dyddiol.

Rydym wedi datblygu llwybr gyrfa i gefnogi dilyniant ein gweithwyr. Yn dilyn lansiad llwyddiannus hwn, mae wyth o weithwyr wedi cael eu dyrchafu.

Lles

Mae cefnogi lles corfforol a meddyliol ein gweithwyr yn ganolog iddynt deimlo yn ymgysylltiedig a chyrraedd eu llawn botensial. Fel cyflogwr, rydym yn creu ac yn hyrwyddo amgylchedd gweithle sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol cadarnhaol, ymddygiadau a gweithgareddau lles i'r holl weithwyr gyda gwell rhaglen lesiant. Mae gennym hefyd weithredwyr cymorth cyntaf iechyd meddwl yn Grŵp BDC.

Yn ystod y flwyddyn hon, mae absenoldeb salwch wedi gostwng o 2.8 diwrnod y flwyddyn i bob gweithiwr i 1.9 diwrnod - ymhell islaw cyfartaledd y DU, sef 5.8 diwrnod.

Datblygu'r busnes

Cyhoeddwyd strategaeth pobl a brand cyflogwr i helpu gyda reciriwtio a chadw doniau a nodi ein gwerthoedd a'n cynnig i'n gweithwyr. Yn 20/21, cyflwynwyd nifer o fentrau AD gyda'r nod o wella profiad gweithwyr, cael gwared ar y faich weinyddol wrth gynhyrchu adroddiadau a llenwi ffurflenni a lleihau faint o bapur a ddefnyddir.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda Chwarae Teg i gefnogi cydraddoldeb rhywiol. Eleni roeddem yn falch o gael ein henwebu yn y rownd derfynol ar gyfer Gwobr Cyflogwr Teg yng Ngwobrâu Womenspire 2020 Chwarae Teg yn ogystal â llwyddo i gael y Wobr Arian.

Covid-19

Mae'r pandemig wedi newid yn sylfaenol y ffordd yr ydym yn gweithio gyda'r holl weithwyr yn gweithio gartref ar hyn o bryd. Cododd hyn nid yn unig faterion sylweddol yn ystod y cyfnodau clo, ond mae hefyd yn codi heriau a chyfleoedd posibl wrth i ni drosglwyddo i'r ffordd newydd o weithio. Er mwyn cefnogi'r ffyrdd newydd o arferion gwaith, rydym wedi sefydlu gweithgor, gan gynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o Grŵp BDC, i edrych ar 'weithio yn y dyfodol' a sut y gellir cyflawni hyn wrth gynnal ein hymrwymiad i gyflawni'r gwasanaeth gorau yn y maes'.

Cymeradwywyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Margaret Llewellyn OBE
Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

ADRODDIAD Y PWYLLGOR ENWEBU

Gareth Bullock sy'n cadeirio'r Pwyllgor Enwebu. Gellir gweld presenoldeb ar y dudalen ganlynol.

Pwrpas a chyfrifoldebau'r pwyllgor

Pwrpas y Pwyllgor Enwebu yw ystyried cynllunio olyniaeth, adolygu anghenion arwain y sefydliad a nodi ac enwebu aelodau'r Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn ariannol 20/21, bu'r Pwyllgor yn trafod ac yn ystyried cynllunio olyniaeth ar gyfer aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, ailbenodi cyfarwyddwr Anweithredol presennol, yr angen posibl am gyfarwyddwyr anweithredol newydd, aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd, a chynnal adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau amrywiaeth ei aelodaeth. Mae dyletswyddau'r Pwyllgor Enwebu yn cynnwys adolygu strwythur, maint a chyfansoddiad y Bwrdd yn rheolaidd a gwneud argymhellion i'r Bwrdd mewn perthynas ag unrhyw newidiadau.

Cyn i'r Bwrdd wneud unrhyw benodiad, bydd y Pwyllgor Enwebu yn gwerthuso cydbwyssedd sgiliau, gwybodaeth, profiad ac amrywiaeth ar y Bwrdd.

PWYLLGORAU ERAILL

Mae gan y Banc nifer o Bwyllgorau Gweithredol gan gynnwys Pwyllgor Buddsoddi, Pwyllgor Risg a grŵp llywio strategaeth TG.

Mae'r Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd, a'r Pwyllgorau Gweithredol wedi'u strwythuro i ddarparu llywodraethu cadarn. Mae gan Bwyllgorau'r Bwrdd a Phwyllgorau Gweithredol Gylch Gorchwyl sy'n nodi'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau priodol.

Presenoldeb ar y bwrdd a phwyllgorau

Mae'r tabl isod yn nodi presenoldeb Cyfarwyddwyr ers 1 Ebrill 2020 a fynychodd bob Bwrdd a Phwyllgor.

Gwerthusiad o'r Bwrdd

Yn unol â gofynion cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei berfformiad a pherfformiad ei Bwyllgorau a'i Gyfarwyddwyr bob blwyddyn a hwylusir y gwerthusiad yn allanol bob trydedd flwyddyn. Cynhalwyd adolygiad mewnlol a'i gyflwyno yn ystod y flwyddyn dan arweiniad yr uwch gyfarwyddwr anweithredol annibynnol.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod perfformiad y Bwrdd, ei Bwyllgorau a phob un o'r Cyfarwyddwyr yn parhau i fod yn effeithiol. Amlwgodd y gwerthusiad nifer a gryfderau yn ogystal â meysydd ar gyfer datblygiad parhaus gan gynnwys rheoli cysylltiadau â rhanddeiliaid, rhannu cyfrifoldebau, polisi cydnabyddiaeth ariannol a chanolbwytio mwy ar ddiwylliant. Bydd y meysydd hyn yn cael eu blaenoriaethu fel rhan o'r broses barhaus o Werthuso'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn i ddod.

Gwrthdaro buddiannau

